

Eisteddfod i'w chofio

Roedd y paratoi a'r ymarferion ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Ynys Môn wedi bod ar y gweill ers misoedd a lluo'r ardal wedi trefnu teithio yr holl ffordd i'r ynys. Cychwynnodd yr wythnos gyda llwyddiant Osian Gruffydd yn y gystadleuaeth Unawd ar unrhyw Offeryn Gwerin. Nes ymlaen yn yr wythnos daeth Osian a Daniel i'r brig yn y Deuawd, Triawd neu Bedwarawd Stepio. Ac roedd tri o'r ardal yn llwyddiannus yn y Ddawns Stepio Unigol i Fechgyn dros 16 oed – yn gyntaf Trystan Gruffydd, ail Osian Gruffydd a thrydydd Daniel Calan Jones.



Roedd corau dros 60 oed newydd ac uchelgeisiol yn cystadlu yn erbyn Côr Hen Nodiant eleni ond am yr wythfed tro daeth llwyddiant i'r côr o dan arweinyddiaeth Huw Foulkes.

Cyflwynwyd un o brif wobrau y Dysgwyr, Y Tlws Rhyddiaith, i Rosa Hunt, Pentre'r Eglwys am ddarn o ryddiaith rymus a chofiadwy.

Llongyfarchiadau i Eilir Owen Griffiths, Ffynnon Taf, arweinydd Côr CF1 ar ennill y gystadleuaeth Côr Cymysg.



Llongyfarchiadau i Wil Morus Jones am gael ei enwi yn Gymrawd Paul Harris y Rotary Rhyngwladol mewn cydnabyddiaeth o'i waith yn hybu gwell dealltwriaeth a chyfeillgarwch rhwng pobloedd y byd.

Mae Wil newydd gyhoeddi Adroddiad Blynyddol Bangla Cymru sy'n sôn am waith yr elusen yn achub sawl bywyd ac wedi rhoi gwellhad i gannoedd o gleifion ddaeth i'r ddwy ganolfan feddygol yn Bangladesh. Un o binaclau'r flwyddyn oedd agor canolfan feddygol newydd yn Chittagong ac ers y diwrnod cyntaf mae'r lle wedi bod yn gaffaeliad mawr i ugeiniau o gleifion y slymiau cyfagos. Mae'r ganolfan ym mhentref Rangunia, tua 30 milltir o Chittagong dan ei sang yn ddyddiol. Mae'r elusen yn dal i gynnal yr hyn a elwir yn wersylloedd meddygol, sef mynd i'r ardaloedd tlawd i gynnal meddygfeydd.

Priod waith yr elusen yw rhoi llawdriniaethau i gleifion hollt a chleifion sydd wedi dioddef llosgiadau. Mae'r rhan fwyaf o'r llawdriniaethau hyn yn digwydd mewn ysbytai mewn amrywiol ardaloedd ym Mangladesh, a dibynnwn ar yr ysbytai hynny i'n hysbysu pan mae dros ddeg o gleifion wedi'u cofrestru. Perfformiwyd 1,211 o lawdriniaethau ers sefydlu'r elusen yn 2008. Gellir cefnogi'r elusen drwy'r wefan - www.banglacycymru.org.uk.

Llwyddiant Parti Ponty (Tudalen 7)



Athletau

Llongyfarchiadau i blant blynyddoedd 3, 4, 5, a 6 Ysgol Gynradd Garth Olwg am ennill tlws Pencampwyr Mabolgampau y Clwstwr unwaith eto, am y 6ed flwyddyn. Athletwyr anhygoel



Merched y Wawr Cangen Tonysguboriau yn dathlu 50 mlwyddiant y mudiad mewn steil ar ddiwedd tymor llwyddiannus

Prynwch eich copi o
Tafod Elái
£8 am y flwyddyn
Oddi wrth eich dosbarthwyr lleol
neu 029 20890040

Tafod Elái
Ar gael drwy e-bost
£8 am y flwyddyn
Cysylltwch â
gol@tafelai.com

Ysgol Llantrisant

Mabolgampau

Cafwyd mabolgampau llwyddiannus unwaith eto eleni, gydag aelodau llysoedd Illtyd, Dyfodwg a Gwynno'n cystadlu mewn amrywiaeth o gystadlaethau. Roedd y tywydd yn braf a phawb wrth eu boddau'n mwynhau'r hwyl.



Ffarwelio

Ar ddiwedd tymor yr Haf, fe ffarwelion ni â sawl aelod o staff. Llongyfarchiadau i Mr Siôn Williams ar ei swydd newydd yn Ysgol Pwll Coch yng Nghaerdydd, i Mrs Eiry Abrons sy'n bwriadu gwneud gwaith cyflenwi, Mrs Helen Phillips ac i Ms Amy Davies sy'n dechrau ar gyfnod mamolaeth. Diolch yn fawr hefyd i dair aelod o staff y gegin sy'n ein gadael, sef Becky, Ceri Ann a Sue John. Mae Sue wedi bod yn gogyddes yn yr ysgol ers 35 mlynedd ac felly'n haeddu cael rhoi ei thraed i fyny!

Sioeau Haf

Ar ddiwedd y tymor, cafwyd sioeau Haf gan bob dosbarth. Yn y Cyfnod Sylfaen, roedd y sioeau'n seiliedig ar waith y flwyddyn, ond yng Nghyfnod Allweddol 2, perfformiwyd y sioe gerdd "Matilda". Roedd 61 o ddisgyblion ym Mlwyddyn 6 eleni a thipyn o gamp oedd cynnwys pob un ohonynt yn y perfformiad. Llongyfarchiadau mawr i bawb ar berfformiad penigamp – gan gynnwys y corws, sef disgyblion Blynyddoedd 3, 4 a 5.



Dyma lun o ddisgyblion Blwyddyn 6 yn ymarfer ar gyfer y sioe

Ymweliadau



Yn ystod wythnosau olaf tymor yr haf, trefnwyd tripiau ar gyfer y disgyblion. Fe aeth plant bach y Feithrin ar Daith y Gryffalo ger Caerffili ac fe aeth disgyblion y Derbyn ar ymweliad â Fferm Hendrewennol, er mwyn casglu ffrwythau. Bu Blwyddyn 5 hefyd ar ymweliad ag Ysgol Gyfun Llanhari, gan gymryd rhan mewn diwrnod o chwaraeon hwyliog.

Ysgol Tonyrefail (Tudalen 7)



Elusen Bradley Lowrey

Diolch i bawb am gefnogi elusen Bradley Lowrey – daeth y plant i'r ysgol yn gwisgo gwisg pêl-droed neu yn eu hoff liw. Fe gasglwyd £130 tuag at yr elusen.



Parti Ffarwelio Bl 6



Trip Bl 5 a 6 i Heatherton



Tân y Ddraig

Y Gymdeithas Rieni ac Athrawon

Bu'r GRhA yn brysur yn trefnu dau ddiwyddiad y tymor diwethaf, sef y Ffair Haf flynyddol a'r Ddawns Haf fawreddog yng Ngwesty'r Fro. Rhwng y ddau ddiwyddiad, llwyddwyd i godi bron saith mil o bunnau. Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

Blwyddyn 6

Ar y 14eg o Orffennaf, fe gynhaliwyd "prom" ar gyfer disgyblion Blwyddyn 6 yng Ngwesty'r Fro. Daeth pawb wedi'u gwisgo yn eu dillad crand, er mwyn mwynhau bwffe a disgo. Yna ar y prynhawn Mercher canlynol, cynhaliwyd gêm bêl-droed rhwng y plant a'u tadau. Cyfartal oedd y sgôr yn y diwedd, felly roedd pawb yn hapus!



Gwaith Nyrs gyda Bl3



Hwyl yn Parc Gwledig Dâr



Sioe Trafferth yn Tonwarts



'Rio' Sioe Bl 1 a 2

Colofn Blasus ac Iachus (Tudalen 8)



Myffins Ham a Sbigoglys

Ysgol Evan James

Aeth plant Blwyddyn 5 i Langrannog ar benwythnos braf iawn. Cafon nhw amser bendigedig.



Aeth plant dosbarthiadau Culhwch ag Olwen, Branwen a Bendigeidfran ar drip yn ôl mewn amser i Ysgol Maestir yn Sain Ffagan gan eu bod yn astudio Oes Fictoria. Roedden nhw'n cwyno fod yr athro yno yn llym!



Aeth plant dosbarthiadau Elin Fflur, Tom Jones a Cerys Mathews ar daith i Sŵ Bryste. Roeddent wrth eu bodd.

Aeth plant dosbarth Ysbaddaden am drip hwyl i'r Lido ym Mhontypridd.

Cafodd yr ysgol y Mabolgampau ar ddiwrnod poeth iawn ond llwyddodd pawb i berfformio yn wych! Tîm Cynon enillodd eleni. Llongyfarchiadau i'r plant a aeth i fabolgampau'r clwstwr. Fe wnaethoch chi'n dda iawn.



Rydym yn dweud hwyl fawr wrth tair aelod o staff. Pob lwc yn eich swyddi newydd i Meinir Morris, Donna Kelland a Zoe Lane. Cofiwch ddod nôl i'n gweld ni.



Dyma'r plant yn perfformio ar lwyfan y dref yn ystod Parti Ponty!

Ysgol Pont-Sion-Norton

#SiarteriaithPSN

Mae'r ysgol wedi cyflwyno'r her diweddaraf i'r disgyblion, sef y Siarter Iaith. Mae criw Cymry Cwl wedi eu hethol ac yn barod i ddechrau eu gwaith ym mis Medi.



Mabolgampau

Cafwyd amser gwych yn y tywydd braf ar ddiwrnod y mabolgampau. Bu'r disgyblion yn cefnogi eu llysoedd ac yn mwynhau cystadlu. Llongyfarchiadau hefyd i'r criw o'r adran Iau fu'n cystadlu ym mabolgampau'r clwstwr!



Tripiau Haf

Gwnaeth yr ysgol gyfan fwynhau eu tripiâu Haf i ddathlu diwedd y flwyddyn - Cantref, Arch Noa a Go Air.



BBQ Haf

Diolch i Ffrindiau Pont-Sion-Norton am drefnu'r BBQ Haf. Roedd yr haul yn gwenu'n braf a phawb yn mwynhau ac yn ymlacio.

TONYREFAIL

Gohebydd Lleol:

Helen Prosser

671577/prosserh@btinternet.com

DJ

Mae llawer iawn o ddarllenwyr y Tafod yn holi sut mae DJ Davies. Erbyn hyn, mae e wedi symud i gartref o'r enw Tŷ Penrhos yng Nghaerffili.

Grŵp Sgwrsio

Byddwn yn cychwyn grŵp sgwrsio i unrhyw un sy eisiau ymarfer siarad Cymraeg, yn arbennig dysgwyr a phobl sy eisiau mwy o hyder. Byddwn ni'n cwrdd am y tro cyntaf yng Nghlwb Rygbi Tonyrefail am 7pm nos Fawrth, 19 Medi.



Frank Olding fu'n arwain taith Clwb y Dwyrlyn i weld olion hanesyddol Comin Gelligaer (tudalen 9)

Cor PSN

Diolch i Mrs Foster a Miss Davies am baratoi'r plant ar gyfer y gyngerdd haf a pherfformiadau ym Mharti Ponty. Roeddent yn wych!

PC Lloyd

Diolch unwaith eto i PC Lloyd am ddod i siarad â'r disgyblion. Gwnaeth Blwyddyn 5 elwa'n fawr o'r sgwrs am ymddygiad gwrthgymdeithasol.



Blwyddyn 6

Cafodd blwyddyn 6 amser gwych ar ddiwedd eu cyfnod yn yr ysgol - prom, seremoni gadael ac yna trip i'r ffair ym Mhorthcawl a sglodion i orffen! Pob lwc i bob un ohonoch yn yr ysgol gyfun. Peidiwch ag anghofio am Ysgol Pont-Sion-Norton!!





Priodas Owain Morgan ac Anna Glyn, Pentyrch
(Tudalen 8)

Lluniau Creigiau (Tudalen 5)



Priodas Nathan ac Astrid



Clara Jên Warlow ail ferch Lowri
Glyn a Chris Warlow a chwaer fach i
Pegi Alys, Pentyrch



Chwirydd Walters Gilfach Goch
(Tudalen 5)



Rhys Llywelyn - tîm pêl
-droed dan 10 Ysgolion
Caerdydd



Daniel Jones gyda
Gavin Ashcroft



'Myfanwy' y bocs ceffylau defnyddiol

Camp Casi

Rhai wythnosau yn ôl penderfynodd Casi gael torri ei gwallt hir, hyfryd er mwyn ei anfon at elusen 'Little Princess Trust' sydd yn creu wigiau ar gyfer plant sydd â chancer.

Torrodd 6 phlethen o rhyw 40cm o hyd! Penderfynodd hefyd ei bod hi am godi arian tuag at y 'Teenage Cancer Trust' wrth iddi dorri'r gwallt hir. Bu Nel (ei hefail) a Chlwb Crefftau'r ysgol (Ysgol Gynradd Creigiau) yn codi arian tuag at yr elusen ac fe benderfynodd Casi mai dyma oedd ei dymuniad hi hefyd. Cododd £340! Diolch i'n teulu a'n ffrindiau am ei chefnogi. Da iawn Casi! Llongyfarchiadau mawr! Am weithred garedig!



Ysgol Gynradd Gymraeg Garth Olwg


Côr

Mwynheudd y côr ganu ym mharti Ponty. Diolch i Mrs Howard am drefnu!



Mrs Hale

Gan dymuno ymddoliad hir a hapus a phob dymuniad da i Mrs Hale. Diolchwn iddi yn fawr iawn am eich chyfraniad i Ysgol Gymraeg Garth Olwg a I addysg Gymraeg yr ardal.



Presenolden 100%

Llongyfarchiadau i'r plant yn y llun isod am eu presenoldeb o 100% eleni. Cawsant eu gwobrwyo drwy fynd i'r caffi gyda Mr Gruffydd!



Martyn Geraint.

Diolch i Martyn Geraint am berfformaid arbennig i blant y Meithrin a Derbyn.

Cwrs Beicio

Mae Bl 2 wedi cwblhau cwrs Diogelwch ar y ffordd. Da iawn bawb!



Joio gyda Martyn Geraint

CREIGIAU

Gohebydd Lleol:

Nia Williams

colin.williams@talktalk.net

Bale arall??

Llongyfarchiadau i Rhys Llewellyn Jenkins ar gael ei ddewis eto i gynrychioli tîm pêl-droed dan 10 Ysgolion Caerdydd a'r Fro. Mae Rhys yn ddisgybl yn Ysgol Gwaelod y Garth ac yn byw ym Mhentre Poeth gyda mam a dad sef Richard a Carys a'i chwaer fach Lleucu. Mae'n wŷr i Mair Jones, Tywyn sef Nain a Gill a Gareth Jenkins sef Nani a Gramps, Cardiff Road, y Creigiau. Da iawn Rhys a phob hwyl y tymor nesa.

Clwb Gwawr Creigiau a'r Cylch yn codi arian i'r Eisteddfod.

Bu aelodau Clwb Gwawr Crotesi Creigiau a'r Cylch yn brysur yn codi arian i Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd 2018, yn ystod diwrnod Carnifal Creigiau. Cyfrannodd aelodau'r grŵp boteli o bob math a threfnwyd stondin raffl poteli.

Llwyddwyd i godi £127 a chyflwynwyd yr arian i un o drysoryddion Pwyllgor Eisteddfod Pentyrch a Creigiau, Bethan Griffiths mewn cyfarfod yn ystod mis Gorffennaf. Diolch i Sarah a Sian am drefnu a gweithio ar y stondin ar y diwrnod.

Clwb Gwawr Crotesi Creigiau a'r Cylch

Dewch i ymuno gyda ni. Os am noson allan i gymdeithasu ac i wneud ffrindiau newydd dewch draw.

Byddwn yn cyfarfod yn Neuadd yr Eglwys Creigiau nos Iau Medi 21ain ar gyfer ein noson agoriadol anffurfiol. Dros y misoedd canlynol byddwn yn mynd ar daith gerdded, blasu Prosecco, gwneud torch Nadoligaidd, mynd allan am fwyd a llawer mwy.

Byddwn yn creu tudalen facebook er mwyn hysbysebu ein digwyddiadau. Croeso i bawb.

Chi'n 'nabod 'Myfanwy'?

Bocs ceffylau sydd wedi ei drawsnewid yw 'Myfanwy' ('The Tin Can Filly'). Tynnwyd y lloeriau a'r waliau gwreiddiol mas o'r bocs ceffylau gan roi bywyd newydd iddo a chreu bocs parti deniadol.

Mae 'Myfanwy' yn hollol hyblyg o ran defnydd. Mae posib llogi 'Myfanwy' ar gyfer digwyddiadau, gyda staff neu heb staff. Gall gael ei ddefnyddio at ddefnydd marchnata neu werthu allan ohono. Mae'n ddelfrydol ar gyfer parti neu briodas i weini diodydd ohono.

Syniad a mentergarwch dau o'r pentref yw 'Myfanwy' sef Glyn Jones a Stuart Hulley. Mae Glyn wrth ei fodd yn uwch-gylchu a chreu pethau allan o bren, tra bo Stuart yn gweithio ym maes marchnata a digwyddiadau.

Am wybodaeth bellach neu am drafod digwyddiad posib cysylltwch drwy ffonio 07500 601 500, neu e-bostiwch myfanwy@tincanfilly.co.uk

Ysgoloriaeth Urdd Gobaith Cymru Bryn Terfel 2017

Yn sgîl ei holl lwyddiannau yn Eisteddfod yr Urdd eleni (a thros y blynyddoedd, chwarae teg!) mae Daniel Calan Jones wedi cael ei ddewis i gystadlu am Ysgoloriaeth yr Urdd Bryn Terfel 2017. Bydd yn cael cyfle i weithio gyda mentor mewn dosbarth meistr a bydd cwmni teledu Avanti yn ffilmio'r broses. Bydd angen iddo ddewis rhaglen 12 munud fydd yn amlygu ei sgiliau fel perfformiwr.

Bydd y gystadleuaeth fawr yn cael ei chynnal nos Sadwrn 14eg o Hydref yn Theatr Sony, Pen-y-bont.

Cyfle gwych a phrofiad bythgofiadwy. Llongyfarchiadau mawr a phob lwc Daniel!

Wele lun ar dudalen 4 o Daniel gyda'i hyfforddwr talentog Gavin Ashcroft - gŵr ifanc sy wedi gwneud cymaint i gyfoethogi bywyddau bechlyn a merched ifanc y fro hon dros y blynyddoedd.

Croeso i'r pentref!

Eto'n hwyr, dyma estyn *Croeso* cynnes iawn i'r pentref i ddau deulu ifanc! Ym Mharc y Bryn mae Elen (Samuel gynt), Geraint a Betsan Bowen yn byw. Yno ers dros flwyddyn! O! Diar! Symudodd y teulu bach o Danescourt ac maent wedi hen ymgartrefu yma. Elen yn enedigol o Benybont (a diolch i'w Mam am rannu'r newyddion!) a Geraint o Lamed. Mae Betsan fach yn dair oed. Aeth Elen i ysgol gyfun Llanhari ac yna graddio o Brifysgol Caerdydd. Mae wedi bod yn gweithio gydag Age Connects tan yn ddiweddar. Geraint yntau yn gweithio i gwmni ger Cwmbran wedi iddo raddio o Brifysgol Morgannwg. Pob hapusrwydd deulu bach!

Ychydig fisoedd yn ôl symudodd Gareth Ayres a'i deulu bach i fyw i ganol y pentre - gyferbyn â'r parc! Croeso cynnes Gareth, Debbie a'r hogle! Siwr y byddwch yn hapus yma yn arbennig gyda Taid a Nain wrth law yn Efail Isaf!

Merched y Wawr Cangen y Garth - Swper Pen Tymor

Daeth criw da iawn ynghyd i joio gwledda ar ein noson ola'r tymor lawr yn y Gwaelod lle cawsom fwyd a gwasanaeth ardderchog yn ôl yr arfer. Gydag un cylch o weithgareddau yn dod i ben bellach rydym yn edrych mlân at dymor newydd fydd yn cychwyn llawn afiaith nos Fercher, Medi'r 13eg am 8 yr hwyr pan fydd Band Nantgarw yn dod i'n diddanu a'n rhoi yn yr ysbryd iawn! Byddwn yn cwrdd yn y Ganolfan, Efail Isaf - dewch yn llu i gefnogi, dewch â ffrind, dewch i ymaelodi - mae'n bwysig cadw ein Cangen fach i fynd fel y byddwn yn gallu dathlu'r Hanner cant yn y flwyddyn 2020!

Llongyfarchiadau Mr a Mrs Price!

Brynawn Sul, Gorffennaf 30ain priodwyd Nathan Price ac Astrid Morgan mewn seremoni hyfryd yng Ngwesty Coed y Mwstwr, Penybont. Pob bendith i chi eich dau a phob hapusrwydd yn eich cartref newydd yn Dyffryn y Coed, Pentre'r Eglwys.

Dr Caryl Griffiths

Llongyfarchiadau mawr Caryl ar ennill dy Ddoethuriaeth mewn Seicoleg Addysg!

GILFACH GOCH

Gohebydd Lleol:

Betsi Griffiths

Chwiorydd Walters Sêr y Dyfodol

Llongyfarchiadau mawr i Esmay Walters yn dilyn llwyddiant ysgubol yn ei hail arholiad LANDA. Llwyddodd Esmay i gael marc 100% ac ond 7 mlwydd oed. Mae Esmay yn mynychu'r Academi Gelfyddydau Perfformio LMT dan ofal Louisa a Marvyn Martin Thomas. Cynhaliwyd sioe haf yn Theatr y Savoy Tonyrefail ddydd Sadwrn 15 Gorffennaf lle adroddodd Esmay un o'i darnau ar gyfer ei harholiad yn sôn am aderyn bach. Diddorodd hi'r gynulleidfa mas draw. Buodd Verity ei chwaer (sy'n 3 mlwydd oed) yn perfformio am y tro cyntaf ar lwyfan yn y sioe haf hefyd. Nid hwn yw unig lwyddiant Esmay - cafodd hi 4ydd safle yn y Llefaru Unigol yn Eisteddfod Genedlaethol Taf ac Elai. Siom nad oedd hi wedi cael llwyfan ond roedd aelodau'r teulu wrth eu boddau yn cael gweld rhan o'i rhagbrawf ar y teledu. Mae Esmay yn ddisgybl yn Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail ac fe oedd hi yn rhan o'r sioe diwedd tymor RIO a pherfformiodd hi'n wych yn ei rhan unigol.

Tipyn o gamp! Lot fawr o waith! Y cyfan wedi talu ar ei ganfed. Pob dymuniad da i ti.

Ffarwelio â'r Morganiad!

Dymunwn yn dda i Lyn ac Ingrid Morgan yn eu cartref newydd yn Sain Ffagan. Bydd yn chwith iawn gennym eu colli o Lys Gwynno, roeddent yn gymdogion da. Symudodd y teulu ym mis Gorffennaf ond mae'n siŵr y gwnân nhw gadw mewn cysylltiad.

Ffarwelio â theulu Lynne a John Abel hefyd.

Chwith hefyd yw colli teulu arall arbennig o weithgar - sef Dr John a Lynne Abel. Maent wedi symud i Gaerdydd i fod yn nes at yr wyresau. Pob dymuniad da i chwi ar eich aelwyd newydd.

Cydymdeimlad

Trist iawn yw cofnodi marwolaeth Basil Davies yn ystod mis Gorffennaf. Bu'n brwydro'n hir a dirwgnach yn erbyn salwch enbyd. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i Margaret, ac i'w blant. Roedd yn gymeriad mawr - llawn afiaith, llawn brwdfrydedd, llawn hiwmor. Bydd colled fawr ar ei ôl mewn nifer o gylchoedd. Brodor o Borthyrhyd, Sir Gâr, ydoedd. Gweithiodd yn ddiflino dros yr iaith Gymraeg ac mae 'na lawer iawn o siaradwyr yr hen iaith heddiw sy'n ddyledus i Basil. Cynhaliwyd yr angladd b'nawn Gwener, Awst y 4ydd yn Amlosgfa Caerdydd a Morgannwg gyda gwasanaeth coffa i ddilyn i dathlu bywyd Basil.

EFAIL ISAF

Gohebydd Lleol:
Loreen Williams

Gwibdaith i Faldwyn

Treuliodd aelodau a ffrindiau dosbarth "Mwynhau Llenyddiaeth" y prifardd Cyril Jones ddiwrnod diddorol a phleserus iawn ym Mwynder Maldwyn ddydd Sadwrn, Mehefin 24ain.

Treuliodd y bardd Ceiriog gyfnod yn Sir Drefaldwyn. Bu'n Orsaf feistr yn Llanidloes ac yna o 1871 yn oruchwyliwr y lein a oedd newydd ei hagar o Gaersws i'r Fan. Roedd yn fardd toreithiog a chyfansoddodd eiriau nifer fawr o ganeuon a oedd yn boblogaidd yn y cyfnod. Wrth yrru drwy bentref Llandinam cawsom hanes y cymwynaswr David Davies. Tyfodd David Davies, o fod yn weithiwr dygn a brwd ym Mhwl llifio ei dad, yn ddiwydiannwr llwyddiannus gan greu rheilffyrdd led led Canolbarth a de Cymru. Agorodd byllau glo yn Y Rhondda a chreodd borthladd yn Y Barri. Daeth yn filiwnydd trwy ei ymdrechion ei hun a threuliodd gyfnod byr yn Aelod Seneddol dros Sir Aberteifi.

Anelwyd am Y Drenewydd erbyn cinio a chafwyd hanes y diwydiant gwlan. Tynnodd Cyril ein sylw at y tai aml-lawr lle'r arferid hongian y wlanan i sychu. Cysylltir Y Drenewydd ag hanes cynnar Y Siartwyr pan gododd y gweithwyr i fynnu hawliau megis pleidlais i bob dyn. Agorodd Pryce Jones siop i werthu cynnyrch y ffatrioedd gwlan, ond buan y sylweddolodd gyda'r gystadleuaeth o rannau eraill o Brydain nad oedd gwerthu gwlan yn unig yn broffidiol. Rhaid oedd ehangu'r apêl gan werthu pob math o ddillad o gatalog trwy'r post.

Ymlaen â ni wedyn i Stad Gregynog. Perchnogion cynnar y stad oedd teulu'r Blaeney, ond trawsnewidiwyd yr adeilad gan deulu Hanbury Tracy yn 1850. Aed ati i amgáu'r tŷ â choncrid a'i beintio'n ddu a gwyn. Yn 1920 prynwyd y stad gan y chwirydd Gwendoline a Margaret Davies gyda'r bwriad o sefydlu canolfan y celfyddydau yno. Yn 1974 adferwyd Gwasg enwog Gregynog, un o brif weisg preifat Ewrop a oedd yn cynhyrchu llyfrau cain. Parheir hefyd gyda thraddodiad y gwyliau cerddorol dan gyfarwyddyd Y Doctor Rhian Davies. Cawsom gerdded yn hamddenol o amgylch y gerddi ac ymweld â'r siop ond siom i sawl un ohonom oedd peidio â chael mynd i mewn i'r tŷ.

Gyrru ymlaen wedyn i Fanafon a'n gyrrwr bws yn dygymod â'r ffyrdd cul a throellog yn gampus. Pentref bach dinod i'w Manafon ond bu cewri'n byw yno dros y blynyddoedd. Bu Ieuan Brydydd Hir yn o am gyfnod yn y 18fed ganrif, awdur yr englynion Lys Ifor Hael. Ymgartrefodd yr hanesydd a'r bardd Gwallter Mechain yno am gyfnod, ond yr enwocaf efallai oedd R.S.Thomas a fu'n giwrad ifanc yn yr eglwys ym mhedwar-degau'r ganrif ddiwethaf. Canodd rai o'i gerddi enwocaf ym Manafon.

Troi trwyn y bws am adre' wedyn a gyrru trwy Lanllwchaearn. Roedd hen daid i un o'r beirdd amlycaf sydd yn cyfansoddi yn Saesneg yn hanu o'r pentref hwn, sef Jeffrey Hill. Bardd y mae Cyril yn ei edmygu'n fawr. Mor braf oedd cael cyflwyno'r gyfrol 'Oraclau' gan Jeffrey Hill i Cyril ar ddiwedd y pryd bywyd hyfryd yn Aberhonddu ar ein ffordd adref. Diolch o galon, Cyril am drefnu taith mor ddiddorol.

Trist yw gorfod cofnodi i ni golli un o aelodau'r dosbarth yn ystod yr haf. Bu farw'r annwyl Basil Davies ar ôl dioddef gwaleddd hir. Cydymdeimlwn yn ddfiuant â Margaret a'r teulu yn y Barri.

Graddio

Llongyfarchiadau mawr i Carys, merch Gary a Kim Reason, Heol y Ffynnon sydd newydd ennill gradd dosbarth cyntaf yn y Gyfraith ym Mhrifysgol Abertawe.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau gwresog i Dewi, mab Geraint a Caroline Rees ar ei benodiad yn ddirprwy brifathro dros dro Ysgol Gynradd Gymraeg Coed y Gof, Caerdydd. Dymuniadau gorau iti, Dewi, yn dy swydd newydd.

Parti Ponty

Llongyfarchiadau i Einir Siôn, Ffordd y Capel a'i thim brwdfrydig o weithwyr a drefnodd Parti Ponty ym Mharc Ynysangharad ddydd Sadwrn, Gorffennaf 15fed. Roedd yn llwyddiant ysgubol er gwaethaf y glaw mân a fu'n bygwth drwy'r prynhawn.

I daro nodyn personol fel un sy'n enedigol o fro'r Preseli, cefais fodd i fyw yng nghwmni "Bois y Frenni" a'n difyrrodd ni yn ystod y prynhawn. Criw o "strabs" o ardal Crymych yw Bois y Frenni sy'n dal i ganu caneuon a gyfansoddwyd gan y diweddar W.R.Evans ym mhedwardegau'r ganrif ddiwethaf. Diolch Einir am eich holl waith a'ch brwdfrydedd.

Y TABERNACL

Casgliad yn Tesco i'r Banc Bwyd

Diolch i'r criw o wirfoddolwyr a fu'n brysyr yn helpu casglu bwyd i'r Banc bwyd yn siop Tesco yn Nghonysguboriau ddydd Gwener, Gorffennaf 14eg. Mae'n braf gallu sôn am haelioni'r siopwyr. Diolch i Ann Davies am drefnu rota cynrychiolwyr y capel.

Blodau'r Capel

Yn ogystal â'r aelodau sydd yn rhoi blodau'n wythnosol i harddu tu mewn y capel, rhaid diolch i Jen MacDonald am blannu a chynnal y potiau blodau wrth ddrws y capel. Maent bob amser yn wledd i'r llygad.

Trip yr Ysgol Sul

Bydd plant yr Ysgol Sul a'u rhieni yn teithio i Folly Farm ddydd Sadwrn Medi 16eg i fwynhau diwrnod yng nghwmni ei gilydd. Diolch i Catrin Rees a Lowri Roberts am drefnu'r daith.

Myfyriwr â'r byd wrth ei draed

Llongyfarchiadau i Ben Walkling, cyn-ddisgybl o Ysgol Gynradd Evan James ac Ysgol Gartholwg Pontypridd, a dderbyniodd ei radd BSc Anrhydedd Dosbarth Cyntaf mewn Daearyddiaeth yn ddiweddar.



Manteisiodd Ben ar nifer o gyfleoedd gwahanol yn ystod ei gyfnod ym Mhrifysgol Abertawe gan gynnwys y cyfle i gwblhau gwaith maes yng Nghanada ac India, yn ogystal â chyfnod o brofiad gwaith gyda'r elusen Cymorth Cristnogol. Roedd Ben hefyd yn un o lysgenhadon yr Adran Daearyddiaeth. Derbyniodd Ben Ysgoloriaeth Cymhelliant y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ac Ysgoloriaeth Rhagoriaeth Prifysgol Abertawe. Roedd yr arian hwn yn ddefnyddiol wrth iddo dalu am deithiau maes, adnoddau ar gyfer ei gwrs, a threfnu cyfnodau o brofiad gwaith. "Rwy'n hynod o ddiolchgar am yr holl gyfleoedd hyn gan eu bod wedi fy helpu i ddatblygu at benderfyniad ynglŷn â pha fath o yrfa hoffwn ei dilyn" medd Ben. Bydd Ben yn cwblhau cwrs 'International Disaster Management' ym Mhrifysgol Manceinion ym mis Medi.

Merched y Tabernacl

Ryw saith o aelodau Merched y Tabernacl ddaeth ynghyd ddydd Mercher, Gorffennaf 19eg i ymweld â Chastell hynafol Caerdydd. Cawsom banded a chlonc yng nghaffi'r castell cyn mynd ar daith o amgylch yr adeilad.

Daeth y castell yn eiddo i deulu'r Bute yn 1776 a daeth ffyniant i Gaerdydd a'r cylch yn sgil y teulu dylanwadol yma. Gwelwyd newidiadau mawr yn y castell o dro i dro. Gwahoddwyd William Burgess, pensaer a chynllunydd o fri i adnewyddu'r castell yn 1865. Cynlluniodd ddodrefn ac addurniadau cain gan orchuddio pob arwynebedd bron gyda motifau anifeiliaid, blodau a phlanhigion. Fe grwydron ni drwy'r Neuaddau, yr ystafell fwyta a'r llyfrgell gan synnu a rhyfeddu at y gwaith cain. Dywedir i'r pensaer Burgess gyflogi'r crefftwyr Cymreig gorau i ymgymryd â'r gwaith addurno, a hawdd y gellir credu hynny gan mor wych oedd y gwaith. Yn 1947 rhoddwyd castell Caerdydd yn anrheg i bobl Caerdydd gan y Sed Ardalydd Bute.

Diolch i Carol Williams am drefnu'r ymweliad gan i bawb fwynhau'r profiad.

Cyfarfod nesaf y grŵp merched fydd ymweliad â'r Hen Lyfrgell yng Nghaerdydd ddydd Iau, Medi 14eg.

Trefn yr Oedfaon ar gyfer Mis Medi

Medi 3ydd: Oedfa o dan ofal aelodau Y Groesfaen a Llantrisant
Medi 10fed: Y Parchedig Eirian Rees
Medi 17eg: Cyfarfod Teuluol
Medi 24ain: Y Parchedig Gethin Rhys

Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail (Lluniau tudalen 2)

'Tân y Ddraig'

Llongyfarchiadau mawr i dîm Blwyddyn 6 ar ddod yn gyntaf yng nghystadlaeth rasio ceir 'goblin' o dan ofalaeth elusen Greenpower. Roedd disgyblion blwyddyn 6 wedi adeiladu'r car sef 'Tân y Ddraig' gyda help Mr Holland gofalwr yr ysgol, Mr Hughes a Miss Hughes. Daeth yr ysgol yn gyntaf yn y ras 'drag' a'r ras 'sbrint' yn erbyn Ysgol Millfield o Loegr - ras a oedd yn un hynod o gyffrous! Yn ogystal fe ddaethon i'r brig fel yr ysgol mwyaf llwyddiannus yn y twrnament. Diolch yn fawr i bawb am eu holl ymdrech eto eleni!

Ysgolion Iach – Cam 4

Diolch yn fawr i Mrs Fletcher a Mrs Withey am gydlynw'r gwaith yn llwyddiannus i ennill cam 4 Ysgolion Iach. Cafwyd clod arbennig am arfer ardderchog.

Sioe 'Rio'

'Rio' oedd teitl sioe haf Blwyddyn 1 a 2 a gynhaliwyd yn Eglwys Dewi Sant. Cafwyd gwledd i'r llygaid ac i'r glust. Roedd y sioe wedi ei seilio ar waith y tymor sef - Fforestydd Glaw Trofannol. Diolch yn fawr i'r plant a'r staff am eu gwaith caled.

Trosglwyddo

Cafodd Blwyddyn 6 ddiwrnod o chwaraeon fel eu diwrnod trosglwyddo olaf yn Ysgol Llanhari. Cafodd blwyddyn 5 gyfle i fwynhau gweithgareddau hwyl yr Urdd ar eu hymweliad cyntaf ag Ysgol Llanhari. Daeth athrawon o Ysgol Llanhari i ddsbarth blwyddyn 6 i gynnal gwersi.

'Trafferth yn Tonwarts'

Roedd sioe haf Cyfnod Allweddol 2 wedi mynd â'r gynulleidfa ar daith drwy themâu'r flwyddyn - tra roedd disgyblion Ysgol Tonwarts yn chwilio am ffeiliau colledig, cyn ymweliad gan Estyn! Sioe a oedd yn llawn chwerthin a llu o wybodaeth. Diolch yn fawr i'r staff a'r plant am sioe wreiddiol, llawn hiwmor.

Barbiciw

Diolch yn fawr i'r Gymdeithas Rieny am drefnu Barbiciw yn llawn gemau a gweithgareddau hwyllog. Casglwyd £530 tuag at brynu offer TGCh i'r ysgol.

Mabolgampau

Cafwyd diwrnod heulog i gynnal mabolgampau'r ysgol ar gaeau Parc Tyn y Bryn - roedd pawb wedi mwynhau'r rasio a daeth tyrfa dda i gefnogi. Llys Tylcha a ddaeth yn gyntaf, Cil Elai yn ail a Glyn yn drydydd.

Nyrsio

Daeth Mrs Karen Davies a Mrs Sharon Rosser sydd yn gweithio ar ward y plant yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg i sôn am eu gwaith yn nyrsio. Roedd y plant wedi dysgu llawer ac wedi mwynhau cael tro ar yr offer. Diolch yn fawr iddynt am ymweld â disgyblion Blwyddyn 3.

Sioe Ffarwel Blwyddyn 6

Cynhaliodd Blwyddyn 6 eu sioe Ffarwel yn Theatr y Savoy. Y disgyblion oedd wedi dewis eu hoff atgofion o'u cyfnod yn yr ysgol ac wedi ysgrifennu'r sgript. Roedd yn berfformiad emosiynol iawn, yn enwedig i'r

Menter Iaith Rhondda Cynon Taf

Llwyddiant Parti Ponty 17

Ar Ddydd Sadwrn 15fed o Orffennaf daeth dros 10,000 o ymwelwyr i fwynhau Parti Ponty ym Mharc Ynysangharad Pontypridd. Gŵyl Gymraeg i bawb gyda pherfformiadau Cymraeg arbennig, stondinau, crefftiau, gwyddoniaeth, cerddoriaeth a llawer mwy!

Roedd yn llwyddiant ysgubol eleni ac mae'r Fenter yn falch iawn o hyn ac yn barod yn edrych ymlaen at Parti Ponty blwyddyn nesaf ar Ddydd Sadwrn 14eg o Orffennaf yn ôl ym Mharc Ynysangharad Pontypridd.

Hoffwn ddiolch yn arbennig i Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ein brif bartner eleni, ein partneriaid Cymraeg, yr holl fudiadau eraill oedd yn rhan o'r wyl, y perfformwyr, yr ysgolion fu'n perfformio, y stondinwyr a'r holl wirfoddolwyr am eu cydweithrediad, brwdfrydedd a chefnogaeth ac wrth gwrs i chi am fynychu!

Gobeithio gwnaethoch chi gyd fwynhau gymaint â ni. Diolch yn fawr

Newyddion cyffrous – Clwb Drama newydd

Pob Nos Iau – Yn dechrau 28ain o Fedi Canolfan Dysgu Gydol Oes Gartholwg 5:30yh – 6:30yh (Blwyddyn 4 a 5) 6:30yh – 7:30yh (Blwyddyn 6 a 7) £3.50 y sesiwn

Gig Croeso Nôl 15fed o Fedi. Panda Fight + DJ Alun Reynolds. Clwb y Bont, Pontypridd. 8-11yh. £7

Adran Elái

Nosweithiau cymdeithasol / Gemau / Gweithdai / Celf a Chrefft / Chwaraeon / Teithiau
Pob Nos Fercher i flynyddoedd 7, 8 a 9
Pafiliwn Talbot Green Rhwng 5 a 7yh

Aelwyd Pontypridd

Clwb y Bont, Pontypridd
Am fwy o wybodaeth am ddyddiad cyfarfod nesa'r aelwyd cysylltwch â Gwyndaf Lewis.
Ffoniwch: 01443 407570

Gwasanaethau Plant - Clybiau Carco 2017

Dyma'r clybiau yn eich ardal chi. Am fwy o fanylion am ein clybiau eraill ar draws y sir cysylltwch â'r Fenter.

Clwb Carco Evan James 3.30 – 5.30yp
Clwb Carco Dolau, dydd Llun – dydd Iau, 3.30 – 5.30yp
Clwb Carco Garth Olwg 3.30 – 5.50yp
Clwb Carco Pont Siôn Norton 3.15 – 5.15
Bydd angen i chi archebu lle a chwblhau ffurflen gofrestru a chytundeb rhieni / gwarcheidwad.

Cysylltwch â Menter Iaith Rhondda Cynon Taf 01443 407570 www.menteriaith.cymru

rhieni wrth ffarwelio â'r ysgol. Diolch yn fawr Miss Hughes am ei gwaith caled yn trefnu'r digwyddiad.

Ffarwelio â Blwyddyn 6

Pob lwc i ddisgyblion Blwyddyn 6 yn eu hysgol newydd ym mis Medi. Cafwyd nifer o ddigwyddiadau i ffarwelio â'r plant: gwasanaeth yn Eglwys Dewi Sant i holl ddisgyblion Blwyddyn 6 ardal Tonyrefail, sesiwn Bowllo Deg, parti ffarwelio a gwasanaeth yn yr ysgol! Bydd chwth ar eu holau!

Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd

Braf oedd derbyn yn ddiweddar rifyn Haf 2017 o'r cyfnodolyn Advances Wales a gynhyrchir a dosberthir gan Lywodraeth Cymru bob tri mis yn rhad ac am ddim i bwy bynnag sy'n dymuno derbyn. Y cyswllt yw innovations@wales.gsi.gov.uk neu 03000616044. Mae'r cyfnodolyn yn ddwyieithog a'i ddiwyg yn lliwgar, glân a darllenadwy. Mae'r cynnwys yn rhoi pytiau o newyddion am waith ymchwil academaidd a datblygiadau diwydiannol mewn sawl disgyblaeth wyddonol ar draws Cymru.

Dyma ddetholiad o'r mentrau dan sylw yn y rifyn cyfredol.

Ym Mhrifysgol Aberystwyth mae tîm ymchwil yn astudio malwoden sy'n cludo rhywogaeth o lyngyr parasitig sy'n gyfrifol am y clefyd sgistosomiasis. Amcangyfrifir bod mwy na 200 miliwn o bobl yn Affrica, Asia a De America wedi'u heintio gan y llyngyr gwaed peryglus hwn. Gall achosi difrod mawr i'r bledren, aren ac afu. Mae'r tîm yn Aberystwyth yn gweithio gyda phartneriaid rhyngwladol.

Mae Ysgol Seicoleg Prifysgol Bangor yn ymchwilio i fanteision posibl gemau cyfrifiadurol sy'n ysgogi'r ymennydd gan obeithio trin clefyd Parkinson. Trwy gael cleifion i gyflawni tasgau cyfrifiadurol syml mae'r arbenigwyr niwrolegol yn ceisio ysgogi rhannau penodol o'r ymennydd y mae'r clefyd yn effeithio arnynt.

Mae cwmni yng Nghaerdydd wedi datblygu offeryn sy'n chwilio'r We Dywyll am weithgarwch troseddol neu amheus. Mae'r We Dywyll yn cyfeirio at ardaloedd o'r rhyngwyl na ellir dod o hyd iddynt trwy ddefnyddio peiriannau chwilio nodweddiadol fel Google neu Yahoo. Mae troseddwyr yn defnyddio gweinyddion dienw yn yr er mwyn osgoi cael eu darganfod gan yr heddlu.

Apêl Pentyrch a Creigiau, Eisteddfod Caerdydd 2018

Dyma rai o'r digwyddiadau sydd i ddod dros y misoedd nesaf. Cadwch lygad ar ein ffrydiau Trydar a Facebook am fwy o wybodaeth! Twitter - @ApelPC2018

Taith Gerdded Hanesyddol 2.30yp, Dydd Sul, 17 Medi

Taith addas i'r teulu cyfan o dan arweiniad Mr Geraint Rees o amgylch ardal Creigiau a Phentyrch, am bellter o tua 5 milltir.

Tocynnau ar gael ymlaen llaw gan Teleri Jones (telerij@yahoo.com) neu Emma Lile (e.lile6127@btinternet.com) neu ar y diwrnod. Gwerthfawrogi cyfraniad o £2.00 i oedolion a £1.00 i blant..

Cwrdd am 2.30yp ar y llain gwair, Maes y Gollen, Creigiau, ger Ffermdy Castell y Mynach. Gwisgwch esgidiau addas. Dewch â bwyd a diod. Cŵn ar dennyn yn unig. Dewch yn llw!

Noson o Adloniant gyda Chantorion Creigiau, Côr Ysgol Creigiau a Thalentau Lleol 6.30yh, Nos Iau, 19 Hydref

Dewch i fwynhau gwledd o adloniant yn neuadd Ysgol Creigiau. Tocynnau - £5 i oedolion, plant am ddim. Ar gael gan telerij@yahoo.com neu drwy Ysgol Creigiau.

Colofn Blasus ac Iachus gyda Eluned Davies Scott

Pen-blwydd Hapus SPAM



Does dim cof gen i am ei fwyta gartref nag yn yr ysgol pan yn blentyn ond mae sawl un o'm ffrindiau yn cofio 'SPAM fritters' ar fwydden cinio yn yr ysgol gynradd, rhai eraill wedi ei fwyta gyda sglodion i swper ar nos Wener neu yn y garafan pan ar wyliau haf ac mae'n debyg fod Gordon Ramsey wedi dewis gyrfa fel cogydd o ganlyniad i gael Spam gan ei fam ac mae'n dal i'w gasáu. Roedd rhaid mynd ati i wneud tipyn o ymchwil ar gyfer y rhaglen i ddeall pam mae wedi bod yn fwyd sydd wedi 'sefyll prawf amser'.

Pum cynhwysyn sydd ynddo - porc, ham, halen, dwr, startsh tatws, siwgr a sodium nitrate (cadolwyn). Erbyn hyn mae tua 20 o wahanol fathau o gyflasynnau ar gael mewn gwahanol leoedd trwy'r byd gan gynnwys hickory, blas poeth a sbeislyd, pupur du, caws, twrci rhost.

Mae sgets gomedi am SPAM gan Monty Python a'r sioe gerdd *Spamalot* (yn dilyn o'r fflim *Monty Python and the Holy Grail*) yn enwog. Cafodd y sioe ei pherfformio gyntaf ar Broadway yn 2005 ac mae'n parhau i gael ei llwyfannu ac ar daith yn Lloegr eleni. Y sgets (sydd ar youtube gyda spam, spam, spam ym mhob man) sydd wedi rhoi'r term 'spam' i'r negeseuon e-bost trafferthus rydym yn derbyn.

Daeth SPAM yn boblogaidd yn ystod yr ail ryfel byd gyda 15 miliwn o duniau'r wythnos yn cael eu hallforio i filwyr America wedi'u lleoli dramor. Roedd yn fwyd rhad, hawdd i'w gario, gadw am hir ac i fwyta gan roi ychydig o amrywiaeth i ddieta undonog. Mae'n parhau i fod yn boblogaidd iawn yn ynysoedd y Môr Tawel yn enwedig yn Guam lle oedd canolfan milwrol yr UDA ac yn Hawaii lle mae wedi dod yn fwyd traddodiadol yno. Mae hyd yn oed MacDonalds a BurgerKing yn Hawaii yn ei ddefnyddio i wneud 'The Hawaiian Steak'.

Cafodd ffatri yn Lerpwl drwydded i gynhyrchu SPAM ar ôl yr ail ryfel byd ac fe ddaeth y cig yn boblogaidd ym Mhrydain gan gynnig amrywiaeth i ddieta undonog yn ystod y cyfnod dogni.

SPAM oedd y cynnyrch cyntaf i gael 'jingle' hysybysebu ac mae'r enw yn hawlfraint a'r label sydd heb newid llawer ers y dechrau. Mae amgueddfa Spam yn Austin Minnesota ac mae'n bosib prynu llawer o nwyddau ymroddedig iddo.

Mae o 'yma o hyd' ac efallai yn cuddio yng nghefn sawl cwpwrdd bywyd gyda chwstard Bird's a llaeth tew Nestle! Daeth Maguerite Pattern a llyfr coginio allan mor ddiweddar â 2000 yn llawn rysetiau SPAM oedd, meddai Nigel Slater, yn her ac yn ysbrydoliaeth; dydw i ddim yn credu iddo fod yn un o'i llyfrau mwyaf poblogaidd. Ymysg y rysetiau mae yna syniadau am ddefnyddio SPAM mewn ramekins gyda madarch; mewn salad

PONTYPRIDD

Gohebydd Lleol:
Jayne Rees

Merched y Wawr

Dewch i gyfarfod cyntaf y tymor newydd yn Ffestri Sardis nos Iau, Medi 14eg am 7.30p.m. Y siaradwr gwadd yw Rob Evans a'i bwnc fydd 'O Langallgo i Lanusyllt ar lun ac ar lafar'. Byddwn yn cwrdd ym Mis Hydref i ddathlu diwrnod 'Shwmae Su'mae'. Dyma gyfle i groesawu dysgwyr i'n plith i ymarfer eu Cymraeg. Beth am ymuno a nhw? - nos Iau, Hydref 12fed am 7.30 p.m.

Clwb y Bont

Mae'r Pwyllgor Apêl wedi trefnu taith gerdded noddedig o Lanwynno i Glwb y Bont. Byddwn yn cwrdd ym maes parcio tafarn 'Y Brynffynnon' am 11.00 fore Sadwrn Medi 16eg - gyda llaw sy'n ddiwrnod Owain Glyndŵr - ac yn ymlwybro

Caesars, gyda crostini, ar pizza, mewn stir fry a goulash.

Mewn erthygl yn rhifyn 300 o'r cylchgrawn *Good Food* mae Emma Freud yn sgwennu amdani yn rhoi blas i'w theulu o fwydydd o'i chyfnod hi fel plentyn gan gynnwys 'toasties' SPAM a caws; roedd eu hymateb yn eitha ffafriol meddai.

Hyd heddiw mae gan SPAM ei gefnogwyr. Mae gwefan gyda'r teitl "*Sexy ways to serve Spam*" yn cynnig rysetiau SPAM gyda sauerkraut a bara rhyg, wyau wedi'u scramble, reis wedi'i ffrio, Jalapenos mewn quesadilla, tacos, tortillas, macaroni a chaws ac mewn spaghetti carbonara.

Oes Spam yn tŷ ni? Dim ond wrth ymchwilio i rysetiau ar gyfer y rhaglen radio ac mae 'na un tun mewn cwpwrdd yn y garej! Mae'r gŵr yn ei ddefnyddio fel abwyd da i ddal carp a barbel. Wedi fy arbrofion trylwyr buaswn i ddim yn argymhell defnyddio SPAM mewn rysetiau. Y rysetiau mwyaf llwyddiannus oedd sgons SPAM gyda jam (jam chili oedd yn y Tafod Elái mis Mehefin) a myffins. Ond yn fy marn i mae cig moch neu ham yn fwy blasus ar gyfer y rysâit canlynol:

Myffins Ham a Sbigoglys

Rhoi 8 **cesys myffin** mewn tun a'r ffwrn ymlaen ar 180°C/Nwy 5.

Torri tua **150g o SPAM (neu cig moch/lardons)** yn ddarnau a'i ffrio hyd nes yn frown. Gadael iddynt oeri.

Gratio **75g o gaws Cheddar**, torri **½ nionyn** yn fân a tua **llond dymaid da o sbigoglys** gydag **ychydig o ddail basil**. Cymysgu'r cwbl gyda'i gilydd.

Toddi **3 llond llwy fwrdd o fenyf** (tua 75g) a'i gymysgu gyda **125ml llaeth** a **1 wy bach**.

Cymysgu **125g blawd cyflawn, llwy de pwdwr pobi**, **¼ llwy de soda pobi**, **¼ llwy de paprika gydag ychydig o halen a phupur** mewn bowlen.

Cymysgu'r cynhwysion i gyd gyda'i gilydd yn ysgafn yna rannu cydrhwng y cesys myffin.

Coginio am tua 25-30 munud.

lawr i'r dre gan orffen yn y Clwb. Fe fydd lluniaeth ysgafn yn ein disgwyl. Oes diddordeb? Cysylltwch â Martyn Geraint neu Jayne Rees.

Mae'n amser ail ymuno â'r Clwb. Fe fydd ffurflenni yn y post neu efallai eich bod wedi eu derbyn yn barod. Os nad ydych yn aelod yn barod beth am ddangos eich cefnogaeth i'r sefydliad unigryw yma ym Mhontypridd. Tâl aelodaeth yw £20 y flwyddyn i'r cyflogedig neu £10 i'r di-waith. Mae ffurflenni ar gael o'r Clwb neu cysylltwch â'r Ysg. Aelodaeth ffôn - 07968438314

Colledion

Estynnwn ein cydymdeimlad i David Davies, Nawdddir, Trallwng. Bu fawr tad David, Tegwyn Davies, Glanamau ym mis Gorffennaf ar ôl gwaelledd byr.

Hefyd ym mis Gorffennaf bu fawr tad Gill Frowen, Priory Close. Estynnwn ein cydymdeimlad at Gill a Paul Frowen a'r teulu, Priory Close, Graigwen.

Clwb Llyfrau

Fe fydd y Clwb yn cwrdd nos Fawrth, Medi'r 19eg am 8.00 yng Nghlwb y Bont. Byddwn yn dewis y cyfrolau i'w trafod dros y misoedd nesaf. Dewch â'ch syniadau - llyfrau Cymraeg a Saesneg.

Croeso

Llongyfarchiadau i Nerys a Gareth Brown, Hillside View, Graigwen ar enedigaeth eu plentyn cyntaf, Gwenan Sioned. Mae Nerys (Griffiths gynt) yn gweithio fel cynorthwydd yn Ysgol Gymraeg y Castell, Caerffili.

Pob dymuniad da i Aled Wilcox ac Amylou wrth iddynt ddathlu genedigaeth Sidney Enfys ar Orffennaf 22ain. Chwaer i Darcie Seren ac wyres i Siân ac Andrew Crowley, Graigwen a gorwyres i Dorothy Morgan, Caerffili.

Croeso i Elen i deulu Gavin a Jordan, Y Ddraenen Wen. Fe fydd hi'n ferch fach lwcus iawn.

Draw yn San Francisco ar y 15fed o Orffennaf yn pwyso 8 pwys 4 owns ganwyd Nell Frances, merch fach i Aled a Rosie a chwaer i Annie. Mae Val a Steve Williams, Graigwen yn edrych mlaen at hedfan mas i gwrdd â'u hwyres newydd cyn bo hir.

Pob hwyl

Fe fydd Cai Hywel, Trehopcyn yn dechrau ei swydd newydd ym mis Medi fel pennaeth Cerdoriaeth yn Ysgol Gyfun Cwm Rhymini. Buodd Cai yn dysgu am sawl blwyddyn yn Ysgol Gyfun Llanhari.

Sgwrs

Dewch i lyfrgell Pontypridd nos Fawrth, Medi'r 5ed am 6.00p.m. pan fydd Kate Crockett (cyflwynydd Post Cynnar Radio Cymru) yn sgwrsio am Dylan Thomas.

O'r Wasg

'Glas a Gwyrdd' yw nofel newydd Eiry Miles, gynt o Graigwen. Yn ôl y Cyngor Llyfrau 'dyma nofel gynhyrfus am fyd Carys, plismones mewn ardal dreisgar o Lundain, ymhell o'i gwreiddiau gwledig'. Gomer yw'r cyhoeddwr a'r pris £7.99. Erbyn hyn mae Eiry a'r teulu yn byw yn Llanddarog. Mae hi'n gweithio i'r Ganolfan Dysgu Iaith Genedlaethol fel Swyddog Datblygu'r Cwricwlwm.

PENTYRCH

Gohebydd Lleol:
Marian Wynne

Priodas Dda (Llun tudalen 4)

Yn Eglwys Sant Tomos, Llandudoch, Sir Benfro, ar y 1af o Orffennaf, fe briododd Anna Glyn ac Owain Morgan. Anna ydi merch ieuengaf Joy ac Eifion Glyn, Penrhiw, Penywaun. Ar ôl dyddiau hydrefol eu naws fe drodd hi'n braf ar Sadwrn y briodas a daeth 130 o westeion i'r seremoni ac wedyn i Gelli Fawr, Cwm Gwaun i barhau â'r dathliadau. Pentref genedigol Joy, ei mam, ydi Llandudoch ac yn yr union eglwys hon y priododd hi ac Eifion 44 mlynedd yn ôl. Yno hefyd yn ystod cyfnod y rhyfel y priododd mam-gu a thad-cu Anna ac ym mynwent yr eglwys mae'r ddau wedi eu claddu.

Fe gafwyd areithiau a dymuniadau da gan lu o bobol yn y brecwast ond yr un yn fwy diddorol na neges ar fideo gan ddau o ffrindau Anna o Tanzania yn Affrica. Roedd Dan a Lucy Ashby yn methu bod yn bresennol oherwydd eu gwaith fel newyddiadurwyr yn Affrica. Ond fe lunion nhw adroddiad tafod yn y boch yn dymuno'n dda i'r cwplw a chafodd ei daflunio ar wal ystafell y wledd er mwyn i bawb ei weld.

Bachgen o Fôn ydi Owain ac mae'n beiriannydd strwythrol wrth ei waith yn gweithio efo'r cwmini rhygladol Arup yn y Bae. Mae Anna yn gweithio fel newyddiadurwraig ar-lein efo'r BBC. Ar eu mis mêl fe fentrodd y ddau i'r Dwyrain Pell, i Tseina. Maen nhw wedi sefydlu eu cartref yn Nhreganna a dymunwn bob hapusrwydd iddynt.

Croeso i Clara Jên (Llun tudalen 4)

Ar Fehefin y 15ed, ddiwrnod ar ôl dydd penblwydd ei mam, ganwyd Clara Jên Warlow. Hi ydi ail ferch Lowri Glyn a Chris Warlow ac mae'n chwaer fach i Pegi Alys. Roedd hi'n globen 9 pwys a 3 owns. Nid y rhieni a Phegi yn unig sydd wedi gwirioni. Mae mam-gu a taid Penrhiw, Penywaun yn dal yn wên o glust i glust. Mae Lowri, Chris a'r ddwy fach yn byw yn Nhreganna ger Parc Victoria. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i'r teulu bach.

Taith Clwb y Dwyrain yng Nghwmni Frank Olding

Daeth tymor gweithgareddau Clwb y Dwyrain i'w derfyn wrth i ni deithio i Gomin a thref Gelli-gaer yng nghwmni'r archaeolegydd hynaws Frank Olding. A'r fath wledd a gawsom! O'r braidd bod neb yn gwybod mwy am archaeoleg y fro arbennig hon nag yntau.

Hawdd cadarnhau sylw Frank mai Comin Gelli-gaer yw un o dirweddau archaeolegol mwyaf hynod Cymru. Lle bynnag y troeddiem roedd trysor archaeolegol wrth ein hymyl neu o dan y ddaear y safem ami! Cawsom ddarlun byw o'r fro dros sawl milenia, o'r cyfnod cyn hanes, heibio i Oes y Cerrig, yr Oes Efydd i ddyfodiad y Rhufeiniaid yn y ganrif gyntaf, Oes y

Seintiau, dyfodiad y Gwyddelod yn y chweched ganrif, hyd at anheddau llwyfan amaethyddol y drydedd ganrif ar ddeg.

Do, fe'n synnwyd gan yr aneirif enghreifftiau o'r gwahanol gyfnodau uchod gan gynnwys beddrodau a chistiau, crugiau a charneddau crwn, tomen llosgedig - i gyd o'r Oes Efydd; olion 'ceyrydd ymarfer' y Rhufeiniaid ynghyd â ffordd Rufeinig; carreg goffa Carnbugail sy'n coffâu rhyfelwr o Wyddel; Tyla-glas sef olion clawdd a ffos a godwyd gan y Cymry i'w hamddiffyn rhag yr ysbeilwyr Gwyddelig; olion Eglwys Gwladys, o'r bumed ganrif yn ôl traddodiad, ynghyd ag olion mynachlog hynafol; Dinas Noddfa, sef olion o anedd llwyfan amaethyddol o'r drydedd ganrif ar ddeg. Yn goron ar y cyfan efallai gwelwom olion y gaer Rufeinig yng Ngelli-gaer ei hun.

Yn ogystal â'r ffeithiau a'r olion rhyfeddol cawfyd ambell chwedl a thro trwstan gan Frank gan gynnwys cyfeiriadau at Arthur a'i farchogion a'r Mabinogi.

Astud fu'r gwranddo, mawr fu'r holi a'r trafod a byrlymus fu'r sgwrsio. Yn ôl y sôn bu iddi lawio ychydig ond ni sylwodd neb! Diwrnod i'w gofio. Melys moes mwy!

Diolch i Peter am yr adroddiad ac iddo fe a Gill am eu gwaith trylwyr yn trefnu'r daith a'r swper.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i bobl ifanc y pentref sydd wedi cwblhau eu cyrsiau yn y coleg yr Haf yma. Mae Ffion Jones yn parhau â'i chwrs cyfreithiol yng Nghaerdydd wedi iddi raddio yn y gyfraith o brifysgol Caerwysg. Gradd Hanes gafodd Sian Owen ym mhrifysgol Lerpwl tra bod Guto Griffith yn ymuno â chwmini Pricewaterhouse Coopers yng Nghaerdydd wedi iddo raddio mewn cyfrifyddiaeth a busnes ym mhrifysgol Reading. Enillodd Huw Rees radd mewn cyfrifyddiaeth o brifysgol Caerfaddon a bydd yn dechrau ei swydd fel athro yn ysgol Gymraeg Llangynwyd ym mis Medi.

Dymunwn yn dda iddynt yn eu gwahanol yrfaeod. Pob lwc i chi gyd.

Croeso

Croeso mawr i Bethan a James Jones a'u plant Wil a Lili wedi iddynt symud o Rydlafar i Ben y Waun.

Croeso hefyd i Maria a Rhys Beard a'u plant Isla ac Imogen sydd wedi symud i'r hen "Mission" ond sydd nawr yn cael ei alw'n Capel Gwyn.

Dymunwn bob dedwyddwch i'r ddau deulu yn eu cartrefi newydd a phob llwyddiant i'r pedwar plentyn yn ysgol Creigiau.

Priodas Aur

Llongyfarchiadau i Margaret ac Ifan Roberts a oedd yn dathlu eu priodas aur ganol mis Gorffennaf ac i Marian a Rowland Wynne a oedd yn dathlu yr un achlysur ar ddechrau mis Awst.

Penblwydd Pwysig

Llongyfarchiadau i Morfydd a Gareth Huws wrth i'r ddau ddathlu penblwyddi arbennig yn ystod yr Haf. Pob dymuniad da hefyd i Gareth wedi iddo ymdeol fel perchennog y Mochyn Du yng

Hwb i Addysg Gymraeg – Cronfa Glyndwr

Fe gafodd Cronfa Glyndwr ei sefydlu yn 1963, ond mae'r cadeirydd presennol, yr hanesydd Catrin Stevens, yn awyddus i adael i genhedlaeth newydd sy'n gweithredu dros yr iaith Gymraeg wybod fod grantiau i'w cael i hyrwyddo addysg Gymraeg. Mae Cronfa Glyndwr wedi cyfrannu dros £28,000 at 80 o brosiectau gwahanol ym mhob cwr o Gymru, ers 2011.

Un o'r prosiectau i elwa oedd llyfryn 'Bod yn ddwyieithog' Menter Iaith Rhondda Cynon Taf, llyfryn sydd bellach yn mynd i gael ei ddisbarthu fel enghraifft o arfer dda yn genedlaethol gan Lywodraeth Cymru. Mae Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail hefyd wedi derbyn £500 o nawdd i ddisbarthu taflen yn hyrwyddo'r ysgol i bob cartref yn nalgylch yr ysgol. Ymhlith y cylchoedd meithrin i elwa ar y gronfa mae Cylchoedd Llanhari, Treorci, Efail Isaf ar gyfer ymgyrchoedd marchnata, ac mae Cylchoedd Pentre'r Eglwys, Y Porth a Chylch Meithrin Y Ffynnon wedi derbyn arian i brynu andodau.

Gellir cael hyd i wybodaeth am sut i wneud cais ar wefan Cronfa Glyndwr, sef www.cronfaglyndwr.cymru.

Yn ogystal â gwahodd mwy o geisiadau, mae'r Gronfa hefyd yn edrych am ragor o gyfranwyr hael. "Mae'n ffordd wych o helpu addysg Gymraeg," meddai Catrin Stevens. "Mae cyfraniad bach gan y Gronfa i brosiectau addysg Gymraeg yn gallu gwneud gwahaniaeth rhwng llwyddo neu fethu."

Un ffordd hollol ymarferol o gefnogi'r gronfa yw trwy ddod i ginio yng Nghlwb Golff Creigiau nos Sadwrn, Hydref 14eg. Y siaradwr gwadd fydd Dr Hefin Jones, Deon y Coleg Gymraeg Cenedlaethol. Gellir cael rhagor o wybodaeth a thocynnau trwy gysylltu â Helen Prosser – prosserh@btinternet.com.

Nghaerdydd.

Gŵyl Flodau Eglwys Dewi Sant

Ddiwedd mis Mehefin cynhaliwyd Gŵyl Flodau yn eglwys Dewi Sant Caerdydd a'r thema oedd y Seintiau Celtaidd. Margaret Hughes, Maes y Sarn oedd yn gyfrifol am y syniad a bu wrthi'n ddiwyd yn ymchwilio i hanes y seintiau a gysylltir â de-ddwyrain Cymru. Adlewyrchwyd yr hanes yma yn y gosodiadau godidog a welwyd yn yr ŵyl a oedd yn benllanw dathlu 60mlwyddiant yr Eglwys.

Lle Te Bethan Kate

Croeso mawr a'n dymuniadau gorau i berchnogion newydd y caffu yn y pentre'. Mae Bethan Horn yn dod o Gaerdydd a Mark Oakman sy'n Gymro Cymraeg gloew yn dod o Landisilio. Mae Bethan wedi bod yn dysgu'r Gymraeg ers rhai blynnyddoedd yn Gartholwg ac yn awyddus i ymarfer gyda'i chwsmeriaid. Maent wedi byw yn y pentre' ers blwyddyn a byddant yn priodi yn Eglwys Sant Catwg ym mis Medi.



tafod elái

GOLYGYDD
Penri Williams
029 20890040

HYSBYSEBION
David Knight 029 20891353

CYHOEDDUSRWYDD
Colin Williams
029 20890979

Erthyglau a straeon
ar gyfer rhifyn mis Hydref
i gyrraedd erbyn
22 Medi 2017

Y Golygydd
Hendre 4 Pantbach
Pentyrch
CF15 9TG
Ffôn: 029 20890040
e-bost
pentyrch@tafelai.com

Tafod Elái ar y wê
<http://www.tafelai.com>

Argraffwyr:
Gwasg Morgannwg
Castell Nedd SA10 7DR
Ffôn: 01792 815152



CYLCH CADWGAN

GWYNFOR DAFYDD

yn Y Ganolfan, Tabernacl,
Efail Isaf

Nos Wener 15 Medi 2017
am 8.00yh



MERCHED Y WAWR Tonysguboriau

Medi 20fed

Ymaelodi yna 'Cwis, cacen a chwaned'

Rhagor o fanylion:
01443 223828

Bore Coffi i'r dysgwyr
yng Nghaffi Leekes, Tonysguboriau,
bob dydd Gwener am 11 y bore.
Croeso cynnes i chi ymuno â'r criw.

HUW ROBERTS CYFRIFYDD

Ymarferydd Profiant
Awdurdodedig

Gwasanaeth personol,
proffesiynol a dibynadwy
Profiant (Probate)
Treth Etifeddiaeth
Treth Eiddo
Cynllunio ar gyfer ewyllys

Gwasanaeth Ymweliad Cartref
ar gael

029 2069 4524
07967 976854

huwrobertsaccountant@google
mail.com

www.huwrobertsaccountant.cymru
sefydlwyd 1987

Ysgol Creigiau

Seremoni Cyhoeddi'r Eisteddfod
Genedlaethol

Dewiswyd 8 o'n disgyblion i gynrychioli'r ysgol yn Seremoni Gyhoeddi Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd 2018 a gynhaliwyd y tu allan i Neuadd y Ddinas. Gorymdeithiodd pedair o ferched Blwyddyn 6, Sophie, SaraMair, Ela a Nia, drwy strydoedd Caerdydd. Roedd Gwenno, Ela a Seren yn aelodau o'r 'Ddawns Flodau'. Dewiswyd Eiry, Dosbarth 6, fel un o'r ddwy llawforwyn. Mynychodd y merched y seremoni yn eu gwisgoedd. Roedd yn olygfa ysblennydd.

Tîm Pêl-fasged Merched Cymru

Llongyfarchiadau i Nia, Dosbarth 5, ar gael ei dewis i chwarae i dîm pêl-fasged merched Cymru dan 11 - tipyn o gamp! Ardderchog Nia, dyma'r tro cyntaf i ni gael disgybl yn chwarae pêl-fasged dros Gymru!

Cysgodfan Newydd

Mae adeilad newydd wedi ymddangos ar dir yr ysgol, sef cysgodfan hyfryd i gysgodi rhag yr haul neu i eistedd a mwynhau clonc gyda ffrindiau. Roedd y disgyblion yn gyffrous iawn pan gawsant gyfle i ymweld â'r gysgodfan newydd am y tro cyntaf. Diolch o galon i Gyfeillion yr Ysgol am drefnu'r holl weithgareddau codi arian.

Gwyddonwyr y Dyfodol

Yn agos i ddiwedd y tymor, aeth pedwar disgybl Blwyddyn 6 i Blasmawr i gyflwyno eu prosiect Gwyddoniaeth o flaen disgyblion eraill o ysgolion y clwstwr. Wedi'r holl gyflwyniadau, cyhoeddwyd mai prosiect Sophie, Molly, Sara-Mair a Jamie oedd yr un buddugol - gwych ferched! Gwyddonwyr y dyfodol?

Menter Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig

Ar Orffennaf 7fed, mynychodd Jamie a Nia (Blwyddyn 5) seremoni wobrwyo Menter Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig Genedlaethol ym Mhrifysgol Cymru, Caerfyrddin. Roedd yn hynod falch o adael gydag un o'r 4 gwobr orau yng Nghymru o £500 am brosiect hanes Blwyddyn 5 'Taith yn ôl i'r Ail Ryfel Byd yng Nghymru'. Llongyfarchiadau!

Parti Ffarwelio â Blwyddyn 6

Diolch o galon i Gyfeillion yr Ysgol am drefnu Parti Ffarwel bythgofiadwy i ddisgyblion Blwyddyn 6 ar ddiwedd y tymor. Y thema oedd 'Hollywood' ac roedd pob un yn 'Seren' wrth gerdded i lawr y carped coch! Roedd y neuadd yn llawn cyffro a mwynhad.



MERCHED Y WAWR Cangen y Garth

Band Nantgarw

Croeso cynnes i bawb!

8yh Nos Fercher 13 Medi
yn Y Ganolfan Efail Isaf
Ffoniwch am wybodaeth bellach
029 20890979



**Ariennir yn
rhannol gan
Lywodraeth
Cymru**

**Gwasanaeth addurno,
peintio a phapuro**

Andrew Reeves

**Gwasanaeth lleol
ar gyfer eich cartref
neu fusnes**

Ffoniwch

Andrew Reeves
01443 407442
neu
07956 024930

**I gael pris am unrhyw
waith addurno**



Bethlehem Gwaelod-y-garth

Trefn yr Oedfaon (ar y Sul am 10:30 a.m. oni nodir yn wahanol) :

Mis Medi 2017:

3 – Oedfa dan ofal y Parchedig Hywel Wyn Richards

10 – Oedfa gymun dan ofal Delwyn Siôn

17 – Oedfa dan ofal y Parchedig Robin Samuel

24 – Oedfa Diolchgarwch y Plant

Mis Hydref 2017:

1 – Oedfa dan ofal y Parchedig Robert Owen Griffiths

8 – Oedfa gymun dan ofal Delwyn Siôn

15 – Oedfa Ardal - Creigiau / Pentyrch

22 – Oedfa dan ofal y Parchedig Lona Roberts

29 – Oedfa dan ofal Hefin Jones

A dyna Eisteddfod Genedlaethol Môn 2017 drosodd a phawb gobeithio wedi eu plesio!

Edrych ymlaen mwyach a wnaiff y trefnwyr a'r cefnogwyr at Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd 2018 – un dra gwahanol yw'r darogan oherwydd mai cynnal Eisteddfod ar strydoedd y ddinas yw'r bwriad. Mynd a'n diwylliant i bob congl o'r ddinas yn hytrach nag ynysu'r cyfan mewn un maes, a'r maes hwnnw weithiau "ymhell o swm y dref".

Ond wrth reswm 'doedd dim modd osgoi bod yn ynysig ar Ynys Môn! Mae yna ddwr rhyngddi a'r tir mawr - mae'r Fenai yn rhannu Môn Mam Cymru oddi wrth weddill y wlad. Heb eich bod wedi un a'i hedfan neu nofio'r don, cyrraedd yr ynys dros bontydd Telford a Stephenson a wnaethoch yn ddi-os.

Agorwyd y gyntaf, Pont Menai, pont grog ar gyfer cerbydau, ar y 30ain o Ionawr 1826, a'r llall, Pont Britannia ar gyfer y trên, ar y 5ed o Fawrth 1850.

Fe gofiwn wrth gwrs i'r ail fynd ar dân yn 1970, a'i hail agor i gario trenau a cherbydau modur yn 1980. Mae Llywodraeth Cymru yn sôn mwyach am adeiladu trydedd bont dros y Fenai i ddelio a'r drafnidiaeth sy'n gynyddol dyfu ar lwybr Traws Ewropeaidd yr E22 o Ddylun i Foscow, taith o ryw 3310 milltir (5320 km). [Tybed a fydd tynged y cyswllt yma yn y fantol wedi Brexit?]

Gall y gwaith yma ddechrau yn 2020/21 a chael ei gwblhau yn 2022/23, ar gost dybiedig o £130 miliwn.

Fe fedrwrch ddirnad diddordeb peiriannydd sifil mewn pontydd siawns, ond yn ôl a wela, o ddilyn Geiriadur Charles nid oedd William Morgan, nag awduron gwreiddiol llyfrau'r Beibl, un a'i a dim amgyffred, neu a dim diddordeb mewn pontydd o unrhyw fath!

Tydi'r gair "pont" ddim i'w weld yn unman er i "adeiladu" ac "adeiladwyr" gael sylw. Serch hynny, mae 'na sawl "porth" yn amlygu ei hun fel y gwyddom, a sawl diffiniad ffigurol ac ysgrythurol yn cael eu cynnig, gan gynnwys i'r "porth cyfyng" hwnnw. Un math o'r porth clasurol ydi agoriad gyda bwa yn rhan o'i ffurf.

Tra bod y pontydd dros y Fenai yn rhai arbennig yn eu dydd o ran eu maint a'u gwneuthuriad, daeth y bont fwa i fodolaeth ychydig yn gynt na'r rhain. Adeiladwyd y bont fwa gyntaf tua 3000 o flynyddoedd yn ôl gan yr Etrwriaid a'r Groegiaid (mae'r hynaf sydd yn dal i sefyll, y Mycenaean Arkadiko yng ngwlad Groeg, yn deillio o 1300 cyn Crist).

Ond gyda'r Ymerodraeth Rufeinig y

LLANTRISANT GROESFAEN MEISGYN

Gohebydd y Mis: Ceri Morgan

Hwyl fawr i Guto a Glenys!

Ar ôl blynyddoedd lawer yn byw ym Maes yr Haul, Llantrisant, rhaid ffarwelio â Guto a Glenys Roberts. Mae'r ddau wedi symud i Creigiau a dymunwn yn dda iawn iddynt yn eu cartref newydd. Byddant yn parhau i ddod i Faes yr Haul gan fod Dafydd, Lowri a'r plant yn byw yno erbyn hyn ac fe fydd Nain a Taid yn gwarchod yn aml.

Swyddi newydd yn Hong Kong

Ddiwedd Gorffennaf, gadawodd y teulu John eu cartref yn Rhiwsaeson a symud i fyw yn Hong Kong. Mae Paul wedi bod yno ers mis

cysylltir pontydd bwa rhan amlaf, a chredir iddynt adeiladu dros 1000 ohonynt ar draws eu tiriogaeth, a llawer ohonynt yn dal i sefyll hyd heddiw!

Wn i ddim sawl pont fwa sydd ar gael o fewn ein tiriogaeth ni, na pha 'run yw'r hynaf - mae'n siŵr y byddai pont William Edwards ym Mhontypridd (1756) yn dod yn syth i'r meddwl yn y parthau hyn, ond gall ardaloedd eraill hawlio pontydd bwa cryn dipyn yn hyn na hon - e.e. Pont y Cim ger Pontllyfni yng Ngwynedd a'r dyddiad 1612 arni, ac un o dair pont Pont-ar-Fynach (1075).

Roedd Leonardo da Vinci (1452 - 1519) yn cadw llyfrau nodiadau ar wahanol bethau o ddiddordeb iddo yn ystod ei fywyd, a nododd yn un o'i lyfrau "Nodiadau ar bensaerniaeth" yn ei lawysgrif llaw chwith, wedi ei ysgrifennu tu ôl ymlaen i sicrhau na allai ei elynion ddarllen ei waith ymchwil yn rhwydd, fel a ganlyn am y bwa:-

"Tydi bwa yn ddim byd ond grym sy'n tarddu o ddau wendid, oherwydd mae'r bwa mewn adeilad wedi ei greu o ddwy gylchran (segment) o gylch, a thra bo'r naill a'r llall ynddynt eu hunain yn wan iawn ac yn dueddol o syrthio, trwy wrthgyferbynnu y tueddiad yma yn ei gilydd, fe grëir un nerth o'r ddau wendid."

Tybed nad oes yma le i ninnau ddilyn cyngor da Vinci yn ein bywyd bob dydd ninnau, yn ein crefydd ac yn ein gwlad, boed ogledd neu dde, boed ynys neu'r berfeddwlad, boed Eisteddfod neu beidio? Nid yn unig codi pontydd ydi'r ateb ond gweld y gallu yn ein hunain i droi gwendid yn nerth a chreu cymdeithas deg a chytbwys ar gyfer pob un o'i thrigolion.

Oherwydd, eto yn ôl da Vinci, *"fel y gwna treulio diwrnod da ddod a chwsig hapus yn ei sgil, felly hefyd y daw byw bywyd da a marwolaeth hapus i ni."*

Cofiwch y cynhelir Ysgol Sul i'r plant bob Sul heblaw am wyliau Ysgol a hynny i gyd fynd ac amser yr oedfa am 10:30 a.m.

Cofiwch hefyd am wefan Bethlehem www.bethlehem.cymru

Ymwelwch yn gyson a'r safle i chwi gael y newyddion diweddaraf am hynt a helynt yr eglwys a'i phobl.

Hefyd mae gan Bethlehem gyfiri trydar (twitter). Dilynwch ni ar @gwebethlehem.

Mawrth yn rhinwedd ei swydd newydd yn gyfrifol am rygbi Hong Kong gan gynnwys y tîm 7 bob ochr. Fe fydd Helen yn dechrau fel athrawes mewn ysgol Brydeinig yno ym mis Medi. Pob hwyl i'r pump ohonoch chi. Croeso nôl i Lantrisant

Wedi cyfnod yn byw ym Nhondu, mae Joanne, Jac, Bronwen a Jason Riggs yn dychwelyd i Lantrisant i fyw. Maent wrthi'n adnewyddu'r tŷ a'n edrych ymlaen at fyw yno yn y misoedd nesaf. Croeso nôl i'r ardal.

Cymdeithas Gymraeg Llantrisant

Cafwyd diwrnod gwych yng Nghastell Aberteifi dros yr haf. Roedd y tywysydd, Margaret Daniel yn hynod o wybodus ac roedd yn anodd credu mai dyma'i thro cyntaf yn tywys grŵp o ymwelwyr o amgylch y castell. Diolch o galon i Carys Davies am drefnu'r cyfan.

Ar Fedi'r 8fed, bydd Ieu Piano yn diddanu'r Gymdeithas Gymraeg a'i chyfeillion yng Nghapel y Tabernacl, Efail Isaf. Os hoffech unrhyw wybodaeth, cysylltwch â Gwilym Treharne (01443 205937).

Evan a Jac yn serennu

Mae Evan Griffiths a Jac Clay, o Lantrisant, wedi bod yn cynrychioli tîm pêl-droed De Cymru yng Nghwpan Cymru. Cawsant eu dethol i chwarae yn y gystadleuaeth yn erbyn tîm Gogledd Cymru yng Nghai Connah. Yn dilyn y gystadleuaeth, bydd yr hyffoddwyr yn dewis carfan Cymru. Pob lwc i chi fechgyn.

Criced Morgannwg Ganol

Mae carfannau criced o dan 14 ac 15 Morgannwg Ganol wedi bod yn hynod o brysur dros yr haf. Maent wedi chwarae ar hyd a lled y wlad yn erbyn rhanbarthau eraill Cymru ac yn goron ar y cyfan, fe aethant ar daith i Warwickshire i chwarae 3 gêm. Da iawn i Gruff Morgan, Rhys Morgan a Dafydd Powell o Feisgyn ar lwyddo i fod yn rhan o'r garfan.

Cangen MYW Tonysguboriau yn dathlu'r aur

Daeth criw da o'n haelodau i ddathlu pen-blwydd aur y mudiad ym mis Gorffennaf. Cawsom swper ysgaf yn y Pafiliwn gyda'r bwyd wedi'i baratoi gan Rhian Jones "Buffets for all occasions" Llantrisant. Roedd yn rhaid cael cacen pen-blwydd hefyd felly aeth Eluned ati i ymarfer ei sgiliau addurno! Roedd yn hyfryd cael Merle a Brenda yno i dorri'r gacen - nhw oedd ymysg y rhai oedd yn gyfrifol am sefydlu'r gangen.

Bydd cyfarfod cyntaf y tymor newydd ar Fedi'r 20fed am 7.30 yn y Pafiliwn, Tonysguboriau; mae rhaglen amrywiol wedi'i pharatoi ar gyfer 2017-18.

Grŵp Codi Arian Macmillan Pontyclun a'r ardal

Roeddem yn falch fod y glaw wedi cadw draw ar gyfer ffair haf Pontyclun ar ddydd Sadwrn Gorffennaf 29ain ac fe ddaeth tyra dda yno. Roedd ein stonidin yn boblogaidd iawn ac fe lwyddwyd i glirio'r bwrdd 'Tombola' ac i werthu cannoedd o docynnau raffl. Roedd ein helw dros £530. Cofiwch am ein Taith Gerdded gyda Derek Brockway ar 10fed o Fedi. Mae'r wybodaeth a'r ffurflen gofrestru ar gael ar wefan Macmillan.

Llongyfarchion i Jane Eryl am ennill yr 'X Box' oedd yn un o'r prif wobrau yn raffl grŵp Macmillan Pontyclun a'r cylch. Mae Geraint wrth ei fodd yn dysgu sgiliau newydd i nain a taid!

Ysgol Dolau (Lluniau tudalen 13)

Taith PGL

Cafodd disgyblion blwyddyn 5 a 6 brofiad anhygoel ar eu taith PGL, Torquay. Cawson dywydd bendigedig wrth gymryd rhan mewn nifer o weithgareddau hwyl a chyffrous - saethyddiaeth, canwio, dringo, beiciau modur ac adeiladu rafft i enwi dim ond rhai ohonynt. Penwythnos bendigedig i bawb, yn cynnwys yr athrawon hefyd!

Tripiau Diwedd Blwyddyn

Cafodd y plant i gyd amser gwych ar eu tripiau diwedd blwyddyn. Aeth plant Meithrin i Barc Ynysangharad ym Mhontypridd i gymryd rhan yn 'Picnic y Tedi-Bêrs'. Cafodd plant Derbyn hwyl yng Nghefn Mably, fel gwnaeth blwyddyn 1 a 2 ar eu taith i ganolfan chwarae dan-do Mambo yng Nghaerdydd. Aeth blwyddyn 3 a 4 i Jump Jam lle cawson amser gwych. Da iawn i bawb am eu hymddygiad rhagorol ar yr ymweliadau.

Gwobr Presenoldeb

Cafodd pedwar dosbarth eu gwobrwyo am eu presenoldeb rhagorol eleni. Yr enillwyr oedd Dosbarth 4 gyda Class 7, Class 8 a Dosbarth 6 yn gydradd ail. Cawson eu gwobrwyo gyda gweithgareddau tu allan yn y goedwig - creu ac adeiladu ffau a lloches, marsh mallows o gwmpas y tân a gweithgareddau cracio'r côd. Diolch i Steph Thomson o Bushcraft, Pencoed am ddod i mewn a chynnal y gweithgareddau. Cafodd pob plentyn unigol gyda phresenoldeb o 95% neu'n uwch eu gwobrwyo hefyd gyda thalebau ar gyfer Planet Ice a Jolly Jester. Da iawn bawb!

Llanhari

Cafodd Blwyddyn 5 ddiwrnod hwyl yn Llanhari fel rhan o'r cynllun trosglwyddo. Cawson ddiwrnod hwyl chwaraeon a rhedwyd gan aelodau o dîm chwaraeon yr Urdd. Roedd yn gyfle da i gwrdd â disgyblion o ysgolion eraill y clwstwr ac i gael cipolwg cyntaf ar ysgol gyfun eu dyfodol.

Criced

Bu timau criced Dolau yn brysyr iawn yn ystod yr hanner tymor olaf gyda chystadlaethau a gemau. Aeth y tîm blwyddyn 4 i stadiwm Casnewydd i chwarae yn rownd derfynol cystadlaethau yr Urdd. Chwaraeodd tîm 5 a 6 yn stadiwm Swalec yng Ngerddi Sophia, ond colli allan yn y rownd gynderfynol yng nghystadlaethau genedlaethol ysgolion cynradd. Dangosodd pob tîm sgiliau arbennig a gallu yn ystod pob gêm yn y cystadlaethau.

Tenis

Aeth dau dîm o Dolau i gystadlu yn rownd derfynol cystadlaethau genedlaethol ysgolion cynradd yng Nghaerdydd. Chwaraeodd tîm blwyddyn 4 yn wych yn eu cystadlaethau nhw yng nghanolfan chwaraeon academi Caerdydd, fel gwnaeth tîm blwyddyn 5 a 6 a gystadlodd yng nghanolfan David Lloyd. Chwaraeodd pob tîm tenis ardderchog. Tybed os welwn rhai ar gwr Wimbledon yn y dyfodol?

Ffair Haf

Diolch i bawb a ddaeth i gefnogi ein ffair haf eleni. Cawson nifer fawr o ymwelwyr ar noswaith braf, gynnes. Roedd digon o hwyl a chwerthin ar y castell bownsio a'r reidiau, yn ogystal â nifer o stondinau i brynu anrhegion a bwyd. Cafodd disgyblion blwyddyn 6 hwyl

Pêl-droed Ysgol Gyfun Garth Olwg (Tudalen 15)

Coronwyd tîm bechgyn blwyddyn 10 yn bencampwr Rhondda a Phontypridd ar ôl buddugoliaeth gref wrth guro Ysgol Bryncelynog 4-0. Rhaid canmol ymrwymiad y garfan gyfan yn enwedig Rhys Morgan a ddychwelodd yn gynnar o daith criced yng Ngogledd Lloegr. Perfformiad heb ei ail gydag amddiffyn cadarn a sawl unigolyn yn serennu wrth ymosod. Rhaid sôn am gyfraniad allweddol Corey Thomas ac Ethan Vaughan o flwyddyn 9 i'r fuddugoliaeth. Rheolodd Garth Olwg y gêm o ganol cae a gosodwyd y sylfaen i berfformiad unochrog a nodedig. Sgoriodd Josh Karadogan 2 gan gynnwys cic gosb, Adam Stanton o gornel a gôl unigol a thrawiadol gan Ethan Vaughan i goroni perfformiad disglair. Does dim amheuaeth, gall y garfan hon deimlo balchder am eu perfformiad ac mae'r dyfodol yn edrych yn ddisglair iddynt. Ardderchog!

Angerdd a dygnwch oedd dau o'r prif bethau roedd angen eu dangos yng ngêm derfynol cwpan pêl-droed Pontypridd a'r Rhondda. Dechreuodd y gêm ar sain y chwiban. Roedd yn ddechreuad ffyrnig a hyderus gan fois y chweched. Ymosodon ni, ffliciodd Sam Richards (seren y tîm) y bêl i Tomos West a sgoriodd gôl daclus. 1-0 i'r bois mewn gwyrd. Nes ymlaen daeth cornel i ni, camodd Jordan Thomas i fyny a chroesi i mewn i Oliver Kittridge a beniodd y bêl i'r rhwyd, 2-0 i ni. Daeth gôl ychwanegol cyn chwiban hanner amser wrth i Daniel Parry redeg a phasio'n gywir i Sam Richards am gôl 'gymharol sml'. 3-0, ar hanner amser. Y gêm wedi'i hennill! Neu dyna beth roeddem ni'n ei feddwl! Ymhen dim ar ôl hanner amser roedd Treorci wedi ymateb ddwywaith gan wneud y sgôr yn 3-2. Roedd pethau yn llai cyfforddus ac roedden ni'n cael ein gwthio'n galed gan ymosodiadau cyson y gwrthwynebwyr. Ond ar ôl addasiad i'n tactegau, sgoriodd Sam gôl arall i roi ni 4-2 ar y blaen. Profodd hyn yn arwyddocaol iawn oherwydd sgoriodd Treorci ac roedd hi'n 4-3 yn y munudau olaf. Llongyfarchiadau mawr i'r bois i gyd am berfformiad llawn calon ac agwedd benderfynol. #dewchybois

Gan Tomos West bl.12
Llongyfarchiadau hefyd i dîm blwyddyn 11 a aeth drwodd i'r rownd derfynol dan 16. Yn anffodus ni chawsom gyfle i'w gwneud yn dri chwpan allan o dri eleni ond edrychwn ymlaen at gystadlaethau blwyddyn nesaf gyda brwdfrydedd. Diolch i Mr Rhodri Jones a Mr Eurig Thomas am ein cefnogi a'n helpu i gynnal y timoedd.

wrth gynllunio a rhedeg stondinau eu hunain gan ddatblygu eu sgiliau busnes. Noswaith lwyddiannus, diolch yn fawr i aelodau'r CRHa, y staff a'r teuluoedd a ddaeth i gefnogi.

Cynhadledd Ysgolion Cymraeg

Da iawn i Aiden Mumford ac Eve Thomas am gymryd rhan mewn cyflwyniad i bennaethiaid mewn cynhadledd yng Nghaerdydd. Fel rhan o grŵp wnaethon gyflwyno eu cywaith Dyniaethau i'r pennaethiaid, yn esbonio sut wnaethon gynllunio a gwneud eu cywaith ar yr ardal leol yn glir ac yn hyderus. Da iawn i'r ddau am gyflwyniad ardderchog.

Ffarwelio

Pob lwc i ddisgyblion blwyddyn 6 wrth iddyn nhw ein gadael ni am eu hysgolion

Ysgol Gynradd Gymraeg Castellau (Lluniau tudalen 13)

Mathemategwyr o Fri

Ar ôl ennill cystadlaethau Mathemateg ym Mryste a Taunton aeth tîm Cwis Mathemateg yr ysgol, sef Morgan Davies, Ashley Maybury, Rhianna Bryant ac Iwan Taplin ymlaen i gystadlu yn ffeinal Prydain Fawr yn Rhydychen. Castellau oedd yr unig ysgol o Gymru yn y ffeinal a'r unig ysgol nad oedd yn ysgol breifat! Da iawn chi.

Teithiau

Yn dilyn blwyddyn o waith caled bu disgyblion yr ysgol yn mwynhau teithiau hwylus i lan y môr ar ddiwedd y tymor. Cafodd disgyblion y Cyfnod Sylfaen gyfle i ddysgu mwy am fywyd gwyllt y creigiau a chawsom hwyl wrth chwilita am grancod, pysgod a sêr môr ym Mhorthcawl, tra bu disgyblion hynaf yr ysgol yn mwynhau ar draeth Bae Langland.

Dathlu pen-blwydd Castellau'n 30oed

Bu eleni'n flwyddyn o dathlu pen-blwydd Ysgol Gynradd Gymraeg Castellau yn 30oed. Yn dilyn partïon yn gynharach yn y flwyddyn cawsom bum cyngerdd gwych gyda thema'r 80au i ddiddanu'r rhieni a'r gymuned leol. Ble aeth yn amser dwedwchi?

Gardd yr ysgol

Plannu, dyfrio a gofal arbennig am flwyddyn gyfan. Dyma'r hyn wnaeth disgyblion Castellau yn ardal garddio'r ysgol. Daeth ffrwyth eu gwaith caled i'r amlwg pan gawsom lond whilber o datws i'w coginio! Rhaid diolch yn arbennig i Tammy'r cogydd am baratoi gwledd o datws rhost, stwnsh ac wrth gwrs 'sglods' i bawb ar gyfer prynhawn o flasau ac ymfalchïo yn ein llwyddiannau garddio. Edrychwn ymlaen at blannu eto yn yr Hydref i ddod.

Gwasanaeth Ambiwlans

Diolch yn fawr i'r Gwasanaeth Ambiwlans am ddod mewn i roi gweithdy gwerthfawr iawn i blant y Cyfnod Sylfaen. Mae gwell syniad o lawer ganddynt erbyn hyn beth i wneud mewn argyfwng.

Penwythnos Preswyl

Cafodd disgyblion Blynnydoedd 4 a 5 benwythnos bythgofiadwy yn Llangrannog. Roedd y tywydd yn fendigedig a does dim byd yn well na phenwythnos o ryddid gyda ffrindiau!

Gwobr yr Eco 'Sgolion

Da iawn i bawb a diolch i'r Cyngor Eco yn enwedig am eich gwaith caled wrth i ni ennill trydedd Faner Werdd yr Eco 'Sgolion.

cyfun - Llanhari, Llangynwyd, Pencoed ac Y Pant. Maent wedi bod yn grŵp blwyddyn 6 ardderchog a dymunwn bob hwyl iddyn nhw yn eu camau nesaf o fywyd ysgol.

Rydym hefyd yn ffarwelio â Mrs Helen Williams, Miss Rebecca Gatt a Mrs Sharon Jayne wrth iddyn nhw ymgymryd â'u swyddi newydd. Diolch yn fawr am eu holl waith, cefnogaeth ac ymroddiad i Ysgol Dolau dros y blynnydoedd - dymuniadau gorau iddyn nhw o Dolau.

Ysgol Dolau (tudalen 12)



Gwobr Presenoldeb - Bushcraft



Timau Criced



Cyflwyniad Cynhadledd Ysgolion Cymraeg



Taith PGL



Ysgol Gynradd Gymraeg Castellau (tudalen 12)



Mathemategwyr o Fri



Taith i lan y môr



Cynnyrch gardd yr ysgol



Dathlu penblwydd Castellau'n 30 oed



Gwasanaeth Ambiwlans



Y Faner Werdd



Llangrannog

Ysgol Llanhari

Parti Ponty

Roedd y disgyblion wrth eu bodd yn cymryd rhan mewn amrywiol weithgareddau ynghlwm â Pharti Ponty eleni. Bu criw o ddisgyblion yr adran gynradd yn perfformio yn y dref ac ar y llwyfan a disgyblion yr adran uwchradd yn cynorthwyo gyda gweithgareddau Gwyddoniaeth amrywiol. Hyfryd oedd cael y cyfle i gymryd rhan yn nathliadau Parti Ponty eleni eto. Yn ystod yr wythnosau yn arwain at Parti Ponty cynhaliwyd gweithdy cyfansoddi gwybodaeth gyda Mei Gwynedd a da iawn i fechgyn y band ynghyd â Marged, Lucy ac Ellie am berfformio'n ardderchog yn yr ŵyl.



Mabolgampau

Cynhaliwyd mabolgampau'r adranau uwchradd a chynradd yn ystod mis Gorffennaf. Fe gafwyd llawer o hwyl ac yn yr adran uwchradd llys Hari a orfu mewn



gorneist agos iawn. Roedd mabolgampau dosbarth Cnocell y Coed yn ddigwyddiad arbennig iawn gan mai disgyblion blwyddyn 8 a fu'n gyfrifol am gyd-gynllunio'r gweithgareddau a hyfforddi'r disgyblion iau fel rhan o'n prosiect iechyd a lles Dyfodol Llwyddiannus.

Penllanw hyn oedd y cyfle i Dyfan, Isabel, Sophie ac Oliver annerch cynhadledd o fforwm ysgolion 3-19 oed Cymru gyfan yn Nhŷ Dysgu ar y 14eg o Orffennaf.



Cystadlueth Spelling Bee Ffrangeg

Yn ystod eu gwersi Ffrangeg eleni, bu disgyblion blwyddyn 7 i gyd yn cystadlu yng nghystadlueth Spelling Bee Ffrangeg. Trefnir yr her hon gan Routes into Languages Cymru. Bu sawl brwydr agos yn ystod y tair rownd o fewn yr ysgol ac yn y diwedd Harri Welsh ac Isla Pritchard a fu'n fuddugol.



Cynrychiolodd y ddau Ysgol Llanhari yn y rownd derfynol genedlaethol yn Aberystwyth ar ddechrau mis Gorffennaf gan berfformio'n wych yno!

Llwyddiant hoci

Llongyfarchiadau mawr i Catrin, Izzy a Siwan o flwyddyn 8 sydd wedi eu dewis i gynrychioli'r Sir mewn hoci o dan 14 y tymor nesaf. Gwych ferched!



Teithiau diwedd tymor

Bu'n wythnos olaf brysur iawn a nifer o'r disgyblion yn mwynhau teithiau diwedd tymor. I Heatheron yn Sir Benfro aeth disgyblion Cyfnod Allweddol Tri tra mai i Barc y Rhath aeth blynyddoedd iau y Cyfnod Sylfaen ac i Barc Ynys Angharad a bowllo aeth disgyblion Cnocell y Coed. Braff oedd ymlacio ar ôl tymor prysur! Gwobrwywyd y disgyblion â'r



presenoldeb gorau yn ogystal. Aeth criw â phresenoldeb o 100% ers Medi i Pizza Hut tra mai mwynhau picnic yn y parc wnaeth disgyblion Lleucu Llwynog - y dosbarth â'r presenoldeb gorau am yr ail dymor yn olynol. Da iawn nhw!

Codi arian i Unicef

Ers mis Medi mae'r ysgol yn gweithio tuag at ennill Gwobr Ysgol sy'n parchu hawliau Plant. Llwyddwyd yn y cam cyntaf ac rydym nawr yn brysur yn gwreiddio'r egwyddorion ar draws yr ysgol. Aelodau o flwyddyn 9 yw'r pwyllgor llywio ac fe fuon nhw'n brysur yn trefnu diwrnod codi arian i Unicef ar ddechrau mis Gorffennaf. Llwyddwyd i godi dros £540 i'r elusen deilwng hwn a llwyddo ar yr un pryd i godi ymwybyddiaeth o hawliau plant.



Gwobr Dug Caeredin

Mae Mr Pari wedi bod yn arwain disgyblion yr adran uwchradd sy'n ymgeisio am y wobwr Dug Caeredin eleni yn yr ysgol ac ar ddiwedd Mehefin aeth criw o flwyddyn 12 ynghyd â Miss Emma Rees ar alldaith i Eryri i gerdded Cadair Idris a'r Wyddfa. Llwyddwyd i gyrraedd copa'r Wyddfa a dysgu ac ymarfer sgiliau newydd wrth fynd ati. Llongyfarchiadau!



Ysgol Gyfun Garth Olwg

Gŵyl Gerddorol Rhondda Cynon Taf

Llongyfarchiadau i nifer o ddisgyblion Blwyddyn 7-9 a gymerodd ran yng Ngŵyl



Gerddorol y Sir yn Theatr Parc a'r Dâr, Treorci! Fe wnaethon nhw berfformio yn arbennig o dda!

Ffarwelio a Chroesawu - Newidiadau Staffio

Dymunwn ymdeoliad da a hir i Miss Menna Thomas a Miss Menna Lewis sy'n ffarwelio â ni ar ôl mwy na 30 mlynedd o wasanaeth yr un i ysgol Rhydfelen ac yna Garth Olwg. Mawr fydd y golled ar ôl y ddwy. Dymuniadau gorau hefyd i Miss



Sioned Roberts ar ei swydd newydd a Miss Carys Hurley wrth iddi fynd ymlaen â'i gyrfa. Pob lwc hefyd i Martin, un o ofalwyr yr ysgol ar ei ymdeoliad a diolch iddo am godi dros £1000 yn ddiweddar er mwyn cael peiriant defibrillator i'r ysgol. Pleser hefyd yw croesawu staff newydd atom ym mis Medi: Rhodri Williams (Drama), Kameron Harrhy (Cymraeg), Lowri Woodington (i'r adran Fioleg ar gyfnod mamolaeth), Sian Ogleby (Cynorthwydd), Sian Williams (Cynorthwydd / Athrawes), Thomas Moore (Mathemateg), Catherine Parfitt-Evans (Gofalwr Cynorthwyol), Keith Thomas (Gofalwr).



Gwobrwyo gwaith Tîm

Ar y 11eg o Orffennaf cynhaliwyd noson wobrwyo YEPS, gwasanaeth addysg a chyfranogiad ieuencid RhCT. Roedd grŵp bl.10 sy'n astudio'r cymhwyster Agored Cymru - Sgiliau Byd Gwaith, wedi eu henwebu am wobwr. Categori'r wobwr oedd




achrediad ac roedd y grŵp wedi'u henwebu am eu gwaith caled dros y flwyddyn ddiwethaf. Roedd yr enwebiad hefyd o ganlyniad i'w sgiliau gweithio mewn tîm yn ystod alldaith gyda Gwasanaeth Awyr Agored yr Urdd. Llongyfarchiadau mawr i'r criw am ddod yn ail ar y noson. Hoffai'r disgyblion ddiolch i Miss Shauna Richards am ei gwaith caled a'i chefnogaeth i'r grŵp.

Ymweld â Chomisiynydd Plant Cymru



Ym mis Mehefin, cafodd dau aelod o'n cyngor ysgol, Lewis Williams ac Efan Fairclough y cyfle i wrdd â Sally Holland, Comisiynydd Plant Cymru ynghyd ag aelodau cyngor 8 ysgol arall yn ysgol Gyfun Bro Edern. Roedd Sally yn awyddus i drafod



gyda'r disgyblion ac fe ofynnwyd cwestiynau heriol iddi yn ogystal. Yn ystod y dydd edrychodd y disgyblion ar Gofensiwn y Cenedloedd Unedig ar hawliau plant – CCUHP. Cyflwynodd Efan a Lewis ar erthygl 6 – yr hawl i fywyd ac i fod yn iach. Bydd ein cyngor yn cyflwyno mwy o ddeddfau hawliau plant i weddill yr ysgol flwyddyn nesaf.

Pêl-rwyd

Llongyfarchiadau mawr i Georgia Jenkins, Blwyddyn 12 a gafodd ei dewis i gynrychioli carfan pêl-rwyd Cymru o dan 21. Teithiodd i Fotswana i chwarae ar ddechrau mis Gorffennaf.



Athletau
Rydym yn hynod o falch eleni o'n hathletwyr sydd wedi dangos llwyddiant mewn nifer o gystadlaethau ar draws y wlad yn ystod tymor yr haf. Mae tîm bechgyn blwyddyn 10 yn enwedig wedi serennu. Yr uchafbwynt oedd cystadlaeth genedlaethol atletau a gafodd ei chynnal yn Aberhonddu ddydd Iau Gorffennaf y 13eg. Gyda nifer fawr o ysgolion yn bresennol llwyddodd y bechgyn ennill y gystadlaeth gan guro ysgol Stanwell gyda nifer uwch o fedalau arian. Llongyfarchiadau i Tom Stevens, Alex Halliday, Josh Karadogan, Dan John, Ethan Goode, Ben Smith, Rhys Morgan, Brandon Payne, James Moore, James Hobbs a Will Holmes am fod yn bencampwyr bechgyn Cymru 2017! Yn ogystal â hyn enillodd tîm

athletau blwyddyn 10 gystadlaeth atletau'r Urdd.

Tennis

Diolch yn fawr i Miss Kath Morgan am wneud gwaith ardderchog yn hybu tennis yn yr ysgol yn ystod misoedd yr haf. Mae wedi bod yn hyfforddi carfan



o chwaraewyr ym mlwyddyn 8 a 10 a threfnodd gystadlaethau cymysg athrawon a disgyblion. Miss Siân Roberts a Callum Nichols, Blwyddyn 8 oedd yn fuddugol yn y gystadlaeth athrawes a disgybl a Mr Hughes ac Olivia Holmes yn y gystadlaeth athro a disgybl. Yn ogystal â'r gystadlaeth hon llwyddodd tîm o 4 o ferched blwyddyn 8 a 10 ennill yng nghynghrair 2 ysgolion. Maent yn cynrychioli'r ysgol yng nghystadlaeth derfynol ysgolion yng nghanolfan David Lloyd ar y 14eg a'r 15fed o Fedi. Yn rhinwyd y gwaith gan Miss Morgan, derbyniodd hi docynnau i Wimbledon ar gyfer disgyblion mwyaf selog y clwb tennis a dyma'r hanes gan Thomas Edwards, Blwyddyn 8: Roedd angen i ni wrdd yn y lle bysiau am 7:20yb am daith hir i Wimbledon. Gwelais Jamie Murray a Martina Hingis yn ennill mewn gêm gyffrous iawn. Cawsom ni lawer o hwylio yn gwyllo llawer o gemau eraill. Yn anffodus roedd yna law yn y prynhawn ond roedden wedi bod yn ffodus iawn i wyllo digon o dennis cyn hyn! Diolch i Miss Morgan am y tocynnau neu ni fyddwn wedi cael y cyfle arbennig hwn! Mae Miss Morgan hefyd yn ddiolchgar i'r LTA am y grant er mwyn i hyn fod yn bosib.

Pêl-fasged

Mae Freya Williams wedi profi mwy o lwyddiant gyda'r bêl-fasged ac mae hi yn cynrychioli Cymru o dan 16 yn Gibraltar dros yr haf mewn cystadlaethau FIBA. Bydd hi'n cael y cyfle i chwarae yn erbyn timoedd megis Mononco, Andora, Malta, Gibraltar ac Armenia. Pob lwc iddi hi.



Timau Pêl-droed (Tudalen 12)

Haf Cyfnewidiol i Glwb Rygbi Pontypridd

Mae misoedd yr haf yn rhai o newid mawr i Glwb Rygbi Pontypridd, cyn i'r tymor newydd gychwyn ar benwythnos olaf Awst.

Ers diwedd y tymor blaenorol mae'r hyfforddwr Rob Sidoli a'r rheolwr Richard Langmead wedi gadael y clwb, ac wedi eu hollynnu gan Justin Burnell a Dan Godfrey. Mae Burnell yn hyfforddwr profiadol a digyfaddawd, wedi bod wrth y llyw gyda'r Gleision, tim dan 19 Cymru, Cymry Llundain a Rotherham Titans ers iddo adael Pontypridd nol yn 2003. Bydd Gareth Wyatt yn parhau fel is-hyfforddwr y cefnwyr, a Dan Godfrey, sydd newydd ymdeol fel chwaraewr oherwydd anaf, yn cymryd dyletswyddau rheolwr y garfan. Aeth Burnell ati ar unwaith i adolygu'r garfan yr oedd wedi ei mabwysiadu, ac i dargedu talent ifanc ymysg clybiau cyfagos yn y cymoedd, gyda'r amcan o wneud Pontypridd yn ganolbwynt i ddatblygu'r genhedlaeth nesaf o chwaraewyr addawol.

Mae nifer o chwaraewyr felly wedi gadael y clwb dros yr haf ac mae'r broses o ddwyn chwaraewyr newydd i mewn i'r garfan wedi cychwyn. Mae'r prop profiadol Chris Phillips wedi dychwelyd o Rydyfelin, a dau aelod o garfan dan 20 Cymru, y bachwr Corrie Tarrant a'r blaenasgellwr Morgan Sieniawski eisoes wedi ymuno.

Mae newid sylfaenol wedi ei gyflwyno i strwythur Uwch-adran y Principality gan



Undeb Rygbi Cymru. Bydd yr adran yn cael ei hollti yn ddwy ar ddechrau'r tymor, gyda chlybiau'r dwyrain a chlybiau'r gorllewin yn herio ei gilydd cyn uno ar gyfer ail hanner y tymor. Bydd hyn yn golygu mwy o gemau, a mwy o gemau 'derby' lleol a ddylai fod wrth fodd y cefnogwyr.

Bydd gêm gynghrair gyntaf y tymor i Bontypridd adref yn erbyn Bedwas ddydd Sadwrn 26ain o Awst.

Y newid olaf, ond efallai yr un mwyaf arwyddocaol, yw bod Pontypridd yn ail-osod y maes 3G ar Heol Sardis. Bu cryn sylw am safon y cae wedi i glwb Merthyr wneud cwynion tua diwedd y tymor diwethaf. Wedi llawer o drafod a phendroni, gwnaed y penderfyniad i ail osod y maes synthetig yn barod ar gyfer y tymor i ddod.

Tymor newydd - hyfforddwy'r newydd, chwaraewyr newydd, maes newydd - mae'n gyfnod cyffrous i Glwb Rygbi Pontypridd! I ddilyn holl hynt a helynt y clwb galwch mewn i'r wefan (ie, gwefan newydd hefyd i ddod!) - www.ponty.net

Ysgol Gyfun Garth Olwg (parhad)

Mabolgampau

Bu'r Mabolgampau ar ddiwedd y tymor a chafwyd diwrnod braf iawn yn Lecwydd. Dyma oedd canlyniadau terfynol y diwrnod:

1af - Dafydd 735 pwynt

2ail - Owain 691 pwynt

3ydd - Hywel 653 pwynt

4ydd - Iolo 580 pwynt

5ed - Llywelyn 556 pwynt

6ed - Gruffydd 532 pwynt

Y pencampwyr oedd Caian Evans a Megan Bowen o flwyddyn 7; Carwyn Salmon a Lara Watts o flwyddyn 8; Will Huggins ac Erin Murray o flwyddyn 9; Ethan Goode a Lily Gaskin o flwyddyn 10.



Canolfan

Garth Olwg

Uchafbwyntiau tymor yr Hydref yng Nghanolfan Garth Olwg yn Gymraeg.....

Ioga	-Llun	-6-7pm
Iwcs / Ukulele	-Llun	-7-9pm
Mwynhau Llenyddiaeth	-Mercher	-7-9pm
Golwg ar Gymru	-Mawrth	-9.30-11.30am
Tecstilau Creadigol	-Llun	-12.30-2.30pm
Cyfrifiaduron	-Iau	-1-3pm



Elis James

08/09/17 £10 8pm

26/09/17

7.30pm

£12/£10

Cwmni Theatr Bara Caws

DIM BYD YNNI

(neu Dirgelwch Plas Dolbythwyrdd)

Am wybodaeth bellach

Canolfan Gartholwg - 01443 750057

www.gartholwg.org lcreception@campwsgartholwg.org.uk



Facebook - Gartholwg Lifelong Learning Centre



Twitter @gartholwgllc



Enillwyr y Gystadlaeth Tennis

Eisteddfod

Bu'r cystadlu'n frwd eleni eto ac roedd popeth a oedd ar y llwyfan yn safonol iawn. Llongyfarchiadau i Lys Hywel ar ennill yr Eisteddfod ac i Niamh Jenkins bl.12 ar ennill y gadair hŷn ac i Annwylun Pike bl.8 ar ennill y gadair iau gyda cherddi arbennig o dda. Diolch i Danny Grehan ac i Leon Welsby am feirniadu ar y diwrnod ac i Cynan Llwyd am feirniadu'r gwaith llenyddol.

